# Y DINESYDD

Mehefin 2025 | Papur Pobl Caerdydd a'r Fro | Rhif 498 | £1.50


Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025

**Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc y ddinas a'r fro ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod Dur a Môr eleni**

**A chofiwch am Tafwyl ......**






**Asbri Gŵyl Fach y Fro eleni**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Wyn Mears**

***Golygydd Gorffennaf / Awst***
***Hywel Jones***

Cyfraniadau erbyn **27 Mehefin** at:
hywel.jones4@ntlworld.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Gwahoddiad

**Cynhelir y Cwrdd Blynyddol eleni ar nos Fawrth, 1 Gorffennaf, am 6.30pm yn nhŷ bwyta Porro, Stryd Fawr, Llandaf. Croeso cynnes i bawb.**

**Bydd bwyd yn dilyn am 7.30pm. Buasai'n hyfryd cael cwmni cyn-gadeiryddion, colofnwyr, golygyddion misol, dosbarthwyr lleol ac ati i ymuno gydag aelodau'r pwyllgor. Bydd lle i 25.**

**Holer John Hayes am y fwydlen, john_hayes1@hotmail.com. Bydd angen i chi anfon eich archeb bwyd i John erbyn 20 Mehefin a thalu cyfrif *Y Dinesydd* cyn dydd Gwener, 27 Mehefin. Mae manylion y cyfrif i'w cael ar y ffurflen danysgrifio ar wefan *Y Dinesydd*, dinesydd.cymru**

## Cywiriad

**Yn rhifyn mis Mai (tudalen rhif 5) nodwyd mai Arthur Evans oedd awdur yr erthygl ar ddymchwel Neuadd y Sir Caerdydd. David Jones oedd yr awdur.**

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr**.

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.

*"A chlywir y gw-cw'n canu braf yn ein tir"*



Mae cân gron yn Gymraeg sy'n sôn am ddyfodiad y Gog i'n plith o Ogledd yr Affrig ym mis Mehefin ac mae clywed deunod yr aderyn hwn yn golygu bod yr haf wedi cyrraedd a gobaith am dywydd sych a braf. Felly, cawn weld!

Mae'r Pasg wedi hen basio bellach ond serch hynny mae dau lun wedi aros yn y cof am y cyfnod hwn a welais i ar y teledu sef llun o'r diweddar Bab Francis yn teithio o gwmpas Sgwâr San Pedr yn ei wendid yn dymuno Pasg Hapus i bawb ac yna lun rhagrithiol o'r Arlywydd Putin yn dal cannwyll ynghyn mewn eglwys ym Moscow â gwaed miloedd o Wcrainiaid diniwed ar ei ddwylo.

Erbyn hyn mae dros gant o Gardinaliaid yr Eglwys Gatholig ac o bedwar ban byd wedi ethol Pab newydd i olynu'r Pab Francis a'i enw ydy Robert Prevost gynt o ddinas Chicago ond a dreuliodd flynyddoedd fel cenhadwr yn Periw. Fe'i hadnabyddir o hyn allan fel Pab Leo y pedwerydd ar ddeg a fo ydy'r 267fed Pab ers y Pab Cyntaf. Un arall sy'n dod o Chicago ydy Hilary Clinton ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif odd mwy nag un capel Cymraeg yn y ddinas honno. Mae gwraig o'r enw Ellen G Evans wedi ysgrifennu ei hunangofiant ac yn sôn amdani yn bymtheg oed yn 1904, yn mynd i fyw a gweithio yn Chicago ac yn mynychu Capel Cymraeg Hebron hefo pum cant o aelodau!

Ar y 8fed o Fai buodd Prydain yn cofio am ddiwedd yr Ail Ryfel Byd wythdeg o flynyddoedd yn ôl a chafwyd degau o ddigwyddiadau i ddynodi'r achlysur. O'n i'n ddeg oed ar y pryd a chofiaf barti dathlu yn fy ysgol yn Rhiwbeina hefo blancmange pinc a jeli coch ac aeth fy nhad â'm brawd a minnau i ganol Caerdydd i ganol y rhialtwch yno wrth ddathlu diwedd chwe blynedd o ymladd. Mae sŵn awyrennau'r gelyn yn hedfan uwchben Rhiwbeina ar eu ffordd i fomio a dinistrio porthladd Caerdydd yn dal yn fy mhen.

Y mis diwethaf ac yntau yn 35 oed daeth gyrfa bêl-droed hynod o lwyddiannus Joe Allen i ben ac yntau wedi bod yn chwarae'r gêm yn broffesiynol am ddeunaw mlynedd. Dechreuodd ei yrfa broffesiynol hefo tîm Abertawe a gorffennodd ei yrfa hefo ei hen dîm. Bu'n seren ar hyd y blynyddoedd a chynrychiolodd ei wlad lawer o weithiau yn ystod ei yrfa. Bu'n ddisgybl yn Ysgol y Preseli ac mae o'n rhugl ei Gymraeg ac yn berson hoffus dros ben. Mewn cyfweliad gofynnwyd iddo beth odd o am wneud rwan ar ôl ymddeol ac yntau'n ateb ac yn dweud ei fod am gymryd seibiant cyn meddwl am ei ddyfodol tu allan i bêl-droed. Wrth glywed hyn cofiais i amdanaf fy hun yn 55 oed yn penderfynu ymddeol o ddysgu yn 1990 gan ddweud wrth bawb fy mod i am newid cyfeiriad. Feddyliais i ddim ar y pryd y byddwn yn 1991 yn hedfan draw i'r Wladfa ym Mhatagonia i ddysgu Cymraeg yno!

Y mis diwethaf hefyd dadorchuddiwyd plac glas yn nhre Penybont-ar-Ogwr ar hen dŷ'r darlledwr, pregethwr a bardd a chyn Archdderwydd Cymru y Parch. William Evans neu Wil Ifan. Bu'n byw yn y dre o 1925 i 1949. Yn 30 oed enillodd y goron yn Eisteddfod y Fenni yn 1913, ac yna goron arall yn 1917 yn 'Eisteddfod y Gadair Ddu' ym Mhenbedw a'r drydedd goron yn 1925 yn Eisteddfod Pwllheli. Yn ystod yr Eisteddfod honno sefydlwyd Plaid Cymru. Dadorchuddiwyd y plac ym Mhenybont-ar-Ogwr gan ei ŵyr Elwyn Evans.

Bu Marathon Llundain yn llwyddiant ysgubol unwaith eto hefo miloedd o bobl yn rhedeg i godi arian at achosion da ac odd llawer o Gymry yn cymryd rhan. Ond odd un athletwr yn absennol ar y funud olaf sef Dewi Griffiths o Sir Gâr er mwyn iddo fod yn bresennol yng ngenedigaeth ei ferch fach! Ond yr un pryd â Marathon Llunain odd Marathon ym Manceinion a Chymro Cymraeg o'r enw Josh Griffiths ac yntau o Sir Gâr hefyd yn ennill y ras. Ychydig flynyddoedd yn ôl daeth yn seithfed ym Marathon Llundain ac o ganlyniad cafodd ei ddewis i gynrychioli tîm Prydain yn ras y Marathon yn y Chwaraeon Olympaidd yn Awstralia. Ond och a sôn diwrnod y ras odd y tywydd yn chwil boeth a chael a chael oddi hi i lawer o'r rhedwyr gyrraedd y llinell derfyn a Josh druan yn eu plith! Beth bynnag pob llwyddiant eto i'r ddau athletwr yn eu gyrfa athletaidd.

Collon ni'r seren gerddorol Geraint Jarman nôl yn Ebrill ac yna collwyd y seren gerddorol Mike Peters ar ôl hynny ac yntau yn 66 oed ac wedi bod yn ymladd canser am ddeng mlynedd ar hugain. Cafodd ei eni yn nhre Prestatyn ac odd o'n Gymro i'r carn gan ofalu bod ei ddau fab Dylan 20 oed ac Evan 18 oed yn derbyn addysg Gymraeg. Mike odd prif leisydd y grŵp enwog "*The Alarm*" a buodd y grŵp yn perfformio dros y byd ac odd miloedd o ddilynwyr ganddyn nhw. Er yr holl sylw ac enwogrwydd arhosodd Mike yn berson diymhongar a didwyll. Coffa da amdano.

Rhaid cau pen y mwdwl rŵan tan y mis nesa ac felly mwynhewch brysurdeb yr haf a hwyl fawr!

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun Mai 19 croesawyd pawb i'r cyfarfod, gan ein Cadeirydd Iona Edwards a chynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ar ddechrau'r noson. Diolchwyd i'r Trysorydd, Dwyfor Jones am ei adroddiad ariannol. Cyhoeddwyd bod angen nifer o Swyddogion newydd ac i unrhyw un oedd â diddordeb mewn cynorthwyo'r Gymdeithas i gysylltu ag aelodau'r Pwyllgor.

Yna croesawyd Russell Isaac i'n cyfarfod. Dywedodd bod Russell yn wyneb a llais cyfarwydd ar y rhaglenni newyddion ers ei ddyddiau ym Mhrifysgol Bangor, a thestun ei sgwrs oedd "Newyddion ddoe sy'n dychwelyd o hyd", a gwelwyd mor fuan yn ei sgwrs mor wir yw'r geiriau hynny.

Fel newyddiadurwr cafodd y cyfle a'r cyfrifoldeb o deithio i bedwar ban y byd, a chyrraedd sefyllfaoedd digon peryglus ar adegau. Gwelodd bod y cysylltiadau a feithrinwyd, a'r gallu i weithio yn ddwyieithog yn gymorth. Roedd y ffaith ei fod yn gwasanaethu S4C sy'n Sianel iaith leiafrifol yn cael gwrandawiad a chydymdeimlad arbennig a chyfle i holi ac ymchwilio.



*Lynn Davies, Russell Isaac, Iona Edwards*

Roedd ei straeon am ei waith yn yr Ariannin a chael gwaharddiad rhag defnyddio'r gair Malfinas yn ddiddorol iawn. Roedd ei helyntion yn paratoi'r newyddion o Afghanistan hefyd yn rhoi gwedd arall ar y modd y mae'r cyfryngau yn lliwio'r newyddion i gryfhau un safbwynt heb roi'r stori gyfan i'r gwylwyr.

Talwyd y diolchiadau gan Lynn Davies, un a fu yn gydweithiwr iddo ac yn ei adnabod ers dyddiau Prifysgol Bangor.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf Mis Ebrill cawsom y pleser o glywed hanes y Parch. Ddr Rosa Hunt.

Cafodd ei geni ar Ynys Malta, a chael ei haddysg mewn ysgol fonedd; doedd dim hawl gan y plant siarad yr iaith Malteg yn yr Ysgol, roeddent yn cael cosb am wneud.

Er taw Malteg oedd ei hiaith gyntaf, nid yw yn gallu darllen nac ysgrifennu'r iaith.

Yn 15 oed caewyd yr ysgolion Catholig, a chafodd hi a'i chwaer eu danfon i Ysgol fonedd Gatholig yn Lloegr.

Aeth i wneud gradd mewn Gwyddoniaeth yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, a chael gradd Dosbarth cyntaf. Priododd yn 1991, ac aeth hi a'i gŵr i Ffrainc. Yno derbyniodd Doethuriaeth.

Dychwelodd y teulu i Gaergrawnt, a dechreuodd y bechgyn fynd i Ysgol Sul mewn Capel y Bedyddwyr. Ymhen amser cafodd Rosa ei bedyddio yn y Capel.

Yn 2006 daethant i fyw yng Nghymru, a dechrau dysgu Cymraeg. Yn 2010 cafodd ei hordeinio yn Weinidog ar Salem Tonteg. Roedd gofyn iddi bregethu yn Gymraeg unwaith y Mis, ac arferai ysgrifennu'r bregeth yn Saesneg, ei roi i ddiacon i gyfieithu i'r Gymraeg, ac yna darllenai'r Bregeth yn yr oedfa.

Erbyn hyn mae ei Chymraeg yn wych, a diolch iddi am ddod atom i rannu ei hanes diddorol.

Cafwyd bore cymdeithasol ym Mis Mai; roedd yn dda cael croesawu aelodau newydd atom.

Yn ystod y cyfarfod bu Age Concern Cymru yn holi nifer o aelodau a chael eu barn am nifer o bynciau, a bu'r aelodau yn llenwi holiaduron, roedd fel ystafell arholiad!



Mae croeso i unrhyw un sydd am ymuno gyda'r Aelwyd Hamdden I ddod atom am awr yng Nghapel Bethel Rhiwbeina, bob yn ail fore Mercher rhwng 11 a 12.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Y Parch Menna Brown; bu Menna yn ysgrifennydd Aelwyd Hamdden am nifer fawr o flynyddoedd, ond oherwydd gwaeledd roedd wedi methu mynychu'r cyfarfodydd ers sawl blwyddyn. Estynnwn ein cydymdeimlad a'i gŵr Robin, a fu'n drysorydd yr Aelwyd am flynyddoedd, a'r teulu i gyd.

Am fanylion am Aelwyd Hamdden ffoniwch Beth Killen 02920566505


# Colofn Natur




## *Eco-twristiaeth*

**Gethin Jenkins-Jones**

Wrth edrych yn ôl dros yr ugain mlynedd diwethaf o joio byd natur, rydw i'n ffodus iawn o fedru adlewyrchu ar wledd o atgofion hyfryd a chyffrous - yn enwedig yr atgofion o ffeindio rhywogaethau am y tro cyntaf. Ond un peth siomedig yw cofio'r holl fisoedd gwanwynol a wnes i (a phob disgybl arall) 'golli' wrth i ni dreulio rhan swmpus o bob dydd efo'n trwynau mewn gwerslyfrau yn paratoi am arholiadau. Mae'n druenus bod y cyfnod mwyaf cyffrous i fod ym mhlith bywyd gwyllt yn cyd-daro efo'r cyfnod mwyaf anodd a phryderus i'r mwyafrif o bobl ifanc. Bellach wedi hen adael yr ysgol (hwre!), rydw i heddiw yn rhydd i fynd ar wyliau ym mis Mai i fwynhau'r trysorau natur nad oedd ar gael i mi drwy gydol y 2010'au.



*Lluniau; GJ-J*



Ers 2023, rydw i wedi mynd ar wyliau blynyddol i wlypdiroedd a mynyddoedd Romania. Wedi i mi ddarllen am harddwch y wlad yn llyfr ail-wylltio *Rebirding* yn ystod y cyfnod clo, roeddwn yn awyddus i fynd am antur yno yn ystod misoedd y gwanwyn. Ni chefais fy siomi, a thaith y flwyddyn gyntaf oedd uchafbwynt y flwyddyn i mi o bell ffordd. Treuliais ran fwyaf o'r gwyliau ym mhentref bach ym mryniau Transylfania (i'r gogledd o ddinas Deva). Mae Transylfania yn arbennig o dda am fywyd gwyllt, gan fod arferion traddodiadol amaethu dal yn cael eu mabwysiadu yno (yn rhannol diolch i arian o'r UE). Mae llawer llai o gemegau yn cael eu defnyddio i dyfu cnwd, ac mae'r defaid a'r geifr yn cael eu symud yn ddyddiol ar hyd y tir, fel roedd yn digwydd yma yng Nghymru am ganrifoedd.

Diolch i hyn, mae gan fyd natur y gallu i ffynnu mewn ffordd sydd ddim i'w gweld yng Nghymru bellach, ac mae mynd i'r wlad yn peri teimlad o hiraeth am bopeth rydym wedi colli dros y ganrif ddiwethaf. Byddai byth yn anghofio'r llu o bili-palod yn eu dwsinau yn 'arnofio' fel niwl dros y glaswelltiroedd, a sŵn cyson cannoedd o sioncod-y-gwair oddi tanynt. Roedd bioamrywiaeth yr adar hefyd yn sbesial. Y gwyliau hynny wnes i weld mwy o adar mewn mis na fyddai'n disgwyl gweld mewn blwyddyn gyfan ym Mhrydain, ac roedd deffro yn gynnar yn y bore gan sŵn cryf côr y wawr yn brofiad pwerus iawn. Wrth gwrs, roedd y mosgitos hefyd yn niferus, a'r flwyddyn gyntaf wnes i ddychwelyd adre efo dros hanner cant o frathiadau ar fy nghoesau. Ond roedd yn sicr yn werth y trwbl!

Fe wnes i lawr lwytho 'Seek' cyn cychwyn y daith - ap sy'n medru adnabod rhywogaethau o luniau eich ffon. Mewn ardal lai na phedwar cilomedr sgwâr, diolch i gymorth yr ap, fe wnes i weld dros 70 math o flodyn gwyllt - anhygoel! Wrth gerdded yng nghanol y dolydd, yn aml cofiais ran o hen gerdd Dafydd Rowland. Dywedodd (wrth ei fab) "dangosaf iti'r byd, sy'n erwau drud rhwng dy draed". Hyd heddiw, nid ydw i wedi gweld tir mor brydferth efo'r fath gyfoeth o fywyd.

Dychwelais i'r un llefydd yn 2024 ac eleni, ond yn wahanol i'r flwyddyn gyntaf, dewisais i deithio yno'n fwy gwyrdd gan gymryd y trên. Rydw i wedi cael lot o hwyl yn teithio'r fath ffordd, yn enwedig wrth weld tirweddau, isadeiledd a diwylliant Ewrop yn esblygu ar hyd y siwrne. Gan fod Romania tua 1,500 milltir o Gymru, mae'n llawer mwy hwyliog i stopio am ddiwrnod neu ddau ar hyd y ffordd. Eleni wnes i dreulio cwpl o ddiwrnodau yn Vienna a Munich, a chefais amser gwych yn cerdded i fyny mynyddoedd yr Alpau cyfagos.

Mae'r term 'eco-twristiaeth' yn un cymharol newydd, ond mae'r diwydiant wedi tyfu'n anferthol dros y blynyddoedd diwethaf. Os ydych yn medru teithio i'r lleoliadau mewn ffordd werdd, byddwn yn sicr yn argymell i chi wneud. Y dyddiau yma, mae hysbysebion gwyliau ar y teledu yn aml yn cynnwys yr un pethau pob tro - haul a phyllau nofio. Tra bod rheini'n neis, mae pyllau nofio yn weddol unfath. I mi, beth sy'n gwneud gwlad yn sbesial yw'r bywyd gwyllt sydd i'w gweld yno, a'r mwyaf manwl rydyn ni'n edrych, y mwyaf hardd mae'r wlad, a'r byd ehangach, yn edrych.

# Cymdeithas Cymru-Ariannin

**Enwau Lleoedd y Cymry yn y Wladfa**

Daeth Gwyn Jones aton ni fel Cymdeithas Cymru-Ariannin y De-ddwyrain yng Nghapel Bethel Rhiwbeina nos Wener Mai 9fed i roi sgwrs ar 'Enwau lleoedd y Cymry yn Y Wladfa'**.** Fe'i croesawyd gan gadeirydd y gangen, Rhisiart Arwel, a chawsom sgwrs ddifyr iawn am sut yr aeth Gwyn ati i gasglu a chofnodi'r holl enwau. Roedd o wedi gweithio mewn gwledydd amrywiol ym maes Cartograffeg Ddigidol a Thir Fesur: sef Sweden, Sawdi Arabia, Cymru, Lloegr yn ogystal â Phatagonia (Chubut, Yr Ariannin).



Cysylltiad cyntaf Gwyn gyda'r Wladfa oedd ym 1995 pan aeth i deithio yno er mwyn ei hadnabod. Bu yno sawl gwaith ers hynny gan fyw yno am gyfnodau gwahanol am tua 12 mlynedd i gyd gan sefydlu ei gartref gyda Mónica Jones (Athrawes a Bardd).

Cychwynnodd gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd a'u lleoliadau daearyddol yn 1995 gan ddechrau ar y gwaith mapio digidol yn 2012 cyn creu'r fersiwn cyntaf argraffedig yn 2023 - Parthlen Dyffryn Camwy a Phorth Madryn a hefyd Parthlen Tiriogaeth Camwy *[gweler y llun].* Roedd yn ddiddorol gweld yr amrywiaeth o enwau, rhai yn yr iaith frodorol, rhai yn y Saesneg ac wrth gwrs nifer helaeth yn y Gymraeg. Archebodd sawl un gopi o'r mapiau. Mae Gwyn yn parhau â'i ymchwil i gyfrannu at ac i gyfoethogi archif hanesyddol y Wladfa Gymreig ac yn bwriadu llunio map o ardal Cwm Hyfryd.

Mae Gwyn a Monica yn byw yng Ngogledd Cymru ac mae ganddynt 3 o blant: Geraldine, Macsen a Morgan.

Rhoddodd Dafydd Griffiths ddiolch i Gwyn am ei sgwrs hynod o ddiddorol, i gapel Bethel am eu croeso ac i'r 40-50 oedd wedi dod i wrando arno. Roedd yn braf cael cwmni Monica yn y cyfarfod.

Mae'r gymdeithas yn trefnu nifer o weithgareddau mewn blwyddyn ac os hoffech wybod mwy amdanyn nhw cysylltwch â Rhisiart ar rhisiart.arwel@icloud.com neu Iwan Madog, yr ysgrifennydd ar iwanmadog@gmail.com

*Llun: o'r chwith Miriam Tilsley sy'n dod o'r Gaiman ac yn byw yng Nghymru ers dros 20 mlynedd, Angharad Rogers, fu'n athrawes am flwyddyn yn Y Wladfa yn 1998, Geraint Tilsley, Monica Jones a Gwyn Jones.*

# Merched y Wawr Caerdydd

Does dim angen cyflwyno ein gwestai ym mis Mai. Mae Alwyn Humphreys yn adnabyddus fel cyfarwyddwr cerdd Côr Orpheus Treforys am 25 mlynedd ac am ei waith helaeth yn y cyfryngau, ond y tro hwn testun ei sgwrs oedd 'Trysorau', sef cyfres o eitemau oedd yn arwyddocaol iddo.

Y cyntaf oedd y Cwpan a enillwyd gan Gôr Meibion Bodffordd yn Eisteddfod Môn Rhosybol 1956 – am y byddai ei dad a'i ewythr wedi bod mor falch ohono.

Dangosodd rai o'i hoff luniau, roedd un o'r cyfansoddwr R S Hughes, Mozart Cymru, a fu farw yn 38 oed. Achubwyd y llun prin hwn o sgip wrth i gapel gael ei glirio.

Llun o Alwyn yn cwrdd â'r Pab John Paul II yn 1982 ddaeth nesaf. Cafodd wahoddiad ar fyr rybudd i arwain côr i groesawu'r Pab pan laniodd ym Maes Awyr Caerdydd. Yn gwbl annisgwyl, dyma'r Pab yn croesi'r tarmac i ddiolch i Alwyn a'r côr am eu croeso cerddorol. Ennyd fythgofiadwy!

Roedd y llun o raglen *Heno* yn y 1990au yn ei atgoffa o iachawr trwy ffydd a ymddangosodd ar y rhaglen ar ôl iddo atgyfodi person marw yn Llanelli - yn ôl y sôn. Ar y pryd roedd Alwyn yn defnyddio ffon oherwydd poenau yn ei goes. Dywedodd yr iachawr wrtho na fyddai angen ffon arno bellach - ac felly y bu!

Cawsom glywed dau o drysorau cerddorol Alwyn. Yn gyntaf, y soprano hudolus, Claudia Muzio, a fu farw o glefyd y galon yn 1936 yn 47 oed.

Ac yna, datganiadau difyr y bariton Dewi Ystrad a gystadlodd ym mhob Eisteddfod am flynyddoedd heb ennill yr un wobr. Cafodd ei lais unigryw ei recordio gan y BBC, er na allai neb ddyfalu beth yn y byd roedd yn canu!

Roedd dau lyfr ymhlith y trysorau. Copi personol T Rowland Hughes o *Gerddi'r Gaeaf* R Williams Parry, a *Thestament Newydd* a roddwyd i blant ysgol ar adeg coroni Siôr VI. Roedd hwn wedi'i lofnodi gan Elfed.

Ar ôl cyfeilio mewn Cymanfa Ganu yn Melbourne, derbyniodd Alwyn botel fach o aur Awstralaidd yn rhodd gan ddynes ddiolchgar. Trysor go iawn felly!

Cawsom fwynhad mawr wrth rannu'r cipolwg hwn ar y pethau sy'n drysorau i Alwyn, gan beri i ni ofyn tybed beth fyddai ein trysorau ninnau.

*Joy Davies*

# Colofn Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

*Colofn sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr y Brifysgol i ysgrifennu am y pethau sy'n eu diddori nhw ar hyn o bryd. Awdur erthygl mis Mehefin yw Gwilym Morgan sy'n astudio'r Gymraeg a Ffrangeg.*

**Cynnal Busnes a Dechrau Prifysgol: Fy Mhrofiadau : Gwilym Morgan**

Rydw i wastad wedi bod yn rhywun sy'n hoffi cadw'n brysur (iawn)! Nôl yn 2021, sefydlais i fusnes bach, bach, bach: GM Notebooks. Roeddwn i'n dylunio ac yn gwerthu llyfrau ar Amazon – dim byd cymhleth, achos roedd popeth yn cael ei argraffu a'i anfon gan Amazon yn uniongyrchol.



Fodd bynnag, ar ôl ennill Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd 2023, penderfynais i dyfu ac ehangu'r busnes. Roeddwn i eisiau iddo fod yn rhywbeth gwahanol, a rhywbeth roeddwn i wir yn angerddol drosto. Dyma ddechrau felly greu adnoddau i ddysgwyr Cymraeg.

Mae blwyddyn bellach wedi mynd heibio ers i mi lansio ein Matiau Gramadeg arloesol, sef dalen A4 yn llawn gramadeg Gymraeg, wedi'i chyflwyno mewn ffordd liwgar a hygyrch. Er fy mod i wedi bod yn brysur yn tyfu ein presenoldeb drwy'r cyfryngau cymdeithasol, marchnadoedd a mentrau fel Cymraeg a Phaned (sesiwn Zoom i ddysgwyr Cymraeg), rydw i hefyd wedi dechrau gradd BA Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Nid yw'r newid o'r ysgol uwchradd i'r Brifysgol yn hawdd. A byddwn i'n dweud celwydd pe bawn i'n dweud ei fod, gan y gall fod yn anodd iawn ar adegau. Ond, rydw i wedi setlo i mewn, mae'r adran mor groesawgar, ac mae yna wyneb cyfeillgar bob amser. Mae Caerdydd yn unigryw gan fod cymaint o gyfleoedd y tu mewn a'r tu allan i'r brifysgol, a dyma'r ochr rydw i'n ei mwynhau fwyaf. Ers dechrau'r brifysgol, dwi wedi dod yn aelod o UMCC (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd), dwi'n gynrychiolydd dros fy mlwyddyn yn Ffrangeg, a dwi wedi gweithio gyda Mentora ITM a'r Coleg Cymraeg i hyrwyddo dysgu ieithoedd a'r Gymraeg.

Ar yr un pryd, wrth gwrs, dwi wedi bod yn galw adref ar benwythnosau i gyflawni archebion ar-lein, ymweld â marchnadoedd ledled de Cymru a dysgu fy ffordd drwy gael busnes, a gwella fy Nghymraeg bob dydd. Fel rhywun sydd wedi dod o gartref di-Gymraeg a heb astudio busnes erioed dwi wir yn dysgu ar hyd y ffordd! Ond rwy'n credu'n gryf mai dyma'r ffordd orau i fod!

Dwi yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi fy helpu erbyn hyn, gan gynnwys *Y Dinesydd* sydd wedi cyhoeddi erthyglau amdanaf fi. Bydd stondin GM Notebooks yn Tafwyl, a dwi wir yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf i weld beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig!

---

Clwb Canna

Cafwyd noson wych arall yn gig Clwb Canna fis Mai, gyda Meinir Gwilym a'r Band.

Yn agor y digwyddiad, i gefnogi Meinir Gwilym, roedd Cadog, sef band ifanc newydd o ardal Caerdydd, a enillodd gystadleuaeth Brwydr y Bandiau Gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf y llynedd. Dau frawd hynod o dalentog yw Cadog, sy'n gallu cynnal diddordeb cynulleidfa drwy gydol eu set. Roedd eu cerddoriaeth yn arbennig, yn glyfar ac yn hwyliog iawn. Band, yn sicr, i gadw llygad arnyn nhw.



Yna, roedd pawb wrth eu boddau hefo Meinir Gwilym a'r Band. Unwaith eto, cerddorion ac artistiaid talentog iawn. Cafwyd cymysgedd arbennig o'r hen a'r newydd. Roedd mor braf troi i mewn am ychydig oriau i glywed y band yn swyno'r gynulleidfa gyda chyfuniad gwych o faledau teimladwy, ac ambell i gân roc. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn fwyaf cyfarwydd â llais gwerinol, unigol Meinir, ond waw, roedd y caneuon gyda'r band yn gefndir yn ychwanegu cymaint at ein profiad. Ac roedd yn hyfryd gweld Meinir ar y llwyfan yn wirioneddol fwynhau ei hun, ac yn gwerthfawrogi ymateb y gynulleidfa.

Cynhelir gig nesaf Clwb Canna nos Wener 4 Gorffennaf, gyda Candelas, ac Anhunedd yn cefnogi. Mae'r tocynnau wedi dechrau gwerthu eisoes, ac ar gael o Caban, Pontcanna neu drwy TicketSource: https://www.ticketsource.co.uk/clwbcanna



Lluniau: @irfonbennett.com

# Merched y Wawr Bro Radur

Ar noson hafaidd o Fai yn neuadd Eglwys Crist, Radur, daeth cangen Merched Y Wawr Bro Radur at ei gilydd i wrando ar y Parchedig Gethin Russell Jones. Testun ei sgwrs, fel rhan o Ŵyl Radur, oedd ei fam, Mair, a'i chyfnod ym Mharc Bletchley yn ystod yr Ail Ryfel Fyd. Ysgrifennodd Gethin hanes ei fam cyn iddi farw ond yn drist ni fu hi fyw yn ddigon hir i weld y llyfr gorffenedig. 'Mae'r clawr ei hun yn dweud y stori', meddai Gethin, sef, *My Secret Life in Hut Six.*

Cymaint oedd athrylith Alan Turing a Gordon Welshman yn creu rhai o'r cyfrifiaduron cyntaf, gorchfygwyd Enigma ac ystyrir bod hynny wedi cwtogi'r rhyfel gan ddwy flynedd. Dim ond pan benderfynodd Prif Weinidog Gordon Brown wobrwyo gweithwyr Bletchley gyda thystysgrif a bathodyn am eu cyfraniad hollbwysig rhwng 1939 a 1945 y teimlodd Mair y gallai hi sôn am ei gwaith. Magu teulu o bump o blant oedd prif gamp bywyd Mair a'i gŵr ar ôl y cyfnod yn Bletchley ac rydym fel gwlad yn ddyledus iddi hi a'i chyfoedion am eu gwaith a'u gallu trwy eu hymdrechion dirgel.

Noson i'w gofio yn wir oedd hon a roddwyd cymeradwyaeth gwresog i'n gwestai diddorol a phaned ar y diwedd i'r dynion oedd yn rhan o'r gynulleidfa arbennig honno hefyd yn ogystal â'n criw o ferched wrth gwrs. Pluen yn ein cap fel cangen oedd cael tystysgrif ein hunain am fwynhau cynnydd yn yr aelodau eleni. Dathliad oedd ein cyfarfod olaf eleni gyda phryd o fwyd yng Nghlwb Golff Radur ar Fehefin 4ydd amser cinio. Croeso i unrhyw un sydd am ymaelodi â'r gangen i gysylltu gydag unrhyw aelod o'r pwyllgor. Bydd ein cyfarfod nesaf ym mis Medi a'r dyddiad i'w drefnu.



*Gethin gyda llun o'i fam ar y sgrin*

# Merched Plastaf

**Lansio Albwm / CD**

Fel y soniwyd eisoes, mae côr Merched Plastaf wedi bod yn brysur iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, ac un o'r uchafbwyntiau oedd rhyddhau albwm cyntaf y côr, ddydd Gwener 25 Ebrill.




Cynhaliwyd cyngerdd lansio'r albwm nos Sadwrn 26 Ebrill yn yr union fan lle cafodd ei recordio, sef yn Eglwys St Augustine, Penarth. Roedd yn werth gwneud y daith fer o Gaerdydd i Benarth. Cafwyd cynulleidfa deilwng iawn, ac ymateb gwych i'r detholiad o ganeuon oddi ar yr albwm, a gyflwynwyd yn y cyngerdd. Does dim amheuaeth fod y merched wedi gweithio'n galed iawn, a llongyfarchiadau iddynt. A llongyfarchiadau i Caryl ar ei gwaith yn arwain y côr ac yn rhoi'r cyfanwaith at ei gilydd, ac yn cynhyrchu'r albwm, gyda chymorth Bethan. Mae'n sicrhau fod lleisiau swynol, arbennig y merched ar gof a chadw.

*"Perfformiadau teimladwy o ddechrau'r noson i'r diwedd. Mae'r merched yn rhan o rywbeth mor arbennig o dan arweiniad medrus Caryl, a'r peth gorau am y noson oedd mynd â chopi o'r CD adre i allu parhau gyda'r gwrando hudolus."* (Anwen Jones)

Mae'n bosibl prynu fersiwn CD o'r albwm o siop Caban ym Mhontcanna, Siop y Felin yn yr Eglwys Newydd, neu Cant a Mil yn y Mynydd Bychan. Gallwch hefyd gysylltu â'r côr drwy anfon e-bost at merchedplastaf@gmail.com.



# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Cofio Joan 'Fach' Jennings, Trelai*

**Gwilym Dafydd**

Ces i'r newyddion trist trwy e-bost gan Ceri, merch Joan, i ddweud bod ei mam Joan wedi marw yn annisgwyl ar fore Mercher, 14 Mai, yn Ysbyty'r Waun.

Joan oedd yr aelod hynaf o fynychwyr Clonc yr Awr Hapus ac o fewn dyddiau i ddathlu ei phen blwydd yn 93 oed – un o blant 1932 oedd hi felly. Ro'n ni yn y Clonc yn ei galw yn Joan 'Fach' oherwydd mae dwy Joan gyda ni yno ers blynyddoedd - Joan Rhiwbeina yw'r llall! Rydw i'n ei chofio yn mynychu dosbarthiadau nos Cymraeg i Oedolion, Canolfan Heol Hafren, Treganna, siŵr o fod chwarter canrif yn ôl erbyn hyn ac yna ymunodd â'r Awr Hapus ar foreau Llun yng Ngwesty Pentref Coryton tan gyfnod Covid-19. Cofiwn amdani yn ei char bach yn teithio o Drelai i ymuno gyda ni - weithiau yn cyrraedd yn hwyr oherwydd bod y traffig yn drwm.

Gwyddom ei bod yn ffyddlon i'r gwasanaethau yn Eglwys Dewi Sant yn Heol Bontfaen Gorllewinol yn Nhrelai a soniodd Ceri, merch Joan, ei bod wedi rhoi gwybod ei bod yn awyddus i gael peth Cymraeg yn ystod yr angladd. Rwy'n gwybod bod Joan wedi prynu sawl copi o'r *Dinesydd* ar hyd y blynyddoedd – bydd sawl copi yn y cartref yn Nhrelai os gwnaeth hi gadw'r cyfan ohonynt! Felly dyma fanteisio ar gyfle yma i gyhoeddi llun o rifyn Tachwedd 2022. Os craffwch yn ofalus fe welwch Joan 'Fach' ar y dde yn yr Hollybush – mae hi'n eistedd rhwng Norman sy'n dal copi, Mike Edwards a fi.

Gwraig weddw oedd Joan ers cyfnod hir. Ond roedd yna'r elfen o "ddalifyndrwydd" yn perthyn iddi - ei phrofiadau wrth geisio meistroli'r Gymraeg yn un ohonynt.

Roedd Ceri'r ferch o'r farn y base Joan yn gwerthfawrogi derbyn gair o deyrnged yn *Y Dinesydd*. Felly diolch yma am ei bywyd a'i gwaith. Rwy'n tybio mai Joan yw'r chweched o gwmni'r Awr Hapus i'n gadael ers 2001 – Dorothy, David, Margorie, Thelma a Brian. Coffa da am y chwech yma – siaradwyr Cymraeg newydd aeth ati i ddysgu'r iaith yn ystod y cyfnod wedi iddynt ymddeol.



**Canolbarth Cymru**



***Yr olygfa o'r Orendy yng Nghastell Powis***

Cawson ni dywydd hyfryd iawn a dim diferyn o law yn ystod ein gwyliau diweddaraf yng Nghaeau Gwynedd ger Llanfyllin yng nghanol mis Mai.

Roedd y  gerddi blodau yn hyfryd a lliwgar iawn o flaen Castell Powis ger Y Trallwng. Mae'r lliw porffor yn drawiadol iawn yma yn un o luniau Eirian.

Aethom hefyd i weld y Goeden Unig uwchben Llanfyllin. Mae'n debyg iddi ennill gwobr genedlaethol fel coeden yn y flwyddyn er iddi gael ei chwythu i lawr mewn storm. Maen nhw wedi diogelu'r safle ac mae hi werth yr ymdrech i ddringo lan, serth mewn ambell fan, i gael golwg ar yr hen goeden a'r Hen Wyrcws (1834) neu'r Dolydd i lawr yn y gwaelodion.

Gwerth hefyd talu ymweliad â'r Dolydd - yma bu tad y diweddar seren gerddorol Ryan Davies (1937-1977) yn rhyw fath o reolwr am ddegawd yn ystod 40au'r ganrif ddiwethaf. Cyn cerdded o amgylch beth am eistedd lawr am ddeg munud i wylio'r ffilm - darlun byw o fywyd pobl dlawd yr ardal, llai na dwy ganrif yn ôl.


ymchwil canser
cymru
cancer research
wales
Helpwch i uno Cymru yn erbyn canser trwy adael rhodd i ni yn eich Ewyllys.
Ymchwil Canser Cymru ydi'r elusen ymchwil canser Gymreig annibynnol.
Rydym yn buddsoddi ein holl wariant ymchwil yma yng Nghymru.
Bydd eich cefnogaeth yn helpu ni i ddod â thriniaethau gwell yn nes adref.
ymchwilcanser.cymru
Ymchwil: Mae yn ein DNA
Gobaith: Mae yn ein DNA
Cymru: Mae yn ein DNA

# Y DIGWYDDIADUR

## Mehefin

**Llun, 9 Mehefin**
Menter Caerdydd. Mewn Tiwn yng nghwmni 'Dwy' (sef Enlli a Lleucu Parry), yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Am ddim, ond gwahoddir cyfraniadau wrth y drws. Nid oes angen tocyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mercher, 11 Mehefin**
Gig Ieuenctid Ffrinj Tafwyl (14+), yng Nghlwb Ifor Bach am 7.30pm. Am ddim, ond rhaid archebu lle: https://mentercaerdydd.cymru/event/ffrinj_tafwyl_gig_ieuenctid/64

**Mercher, 11 Mehefin**
Cymdeithas Carnhuanawc. Dewch i ddysgu am hanes a phensaernïaeth Pentref Garddol Rhiwbina ar daith gerdded a arweinir gan Keith Bush. Cwrdd am 6.30pm y tu allan i gapel Beulah, Heol-y-deri, Rhiwbina. Croeso i bawb.

**Iau, 12 Mehefin**
Noson Pitsa yng nghwmni'r digrifwr Aled Richards, yn Snails, Rhiwbina. Yn rhan o Ŵyl Rhiwbina, gyda'r elw yn mynd at gronfa'r Urdd, 'Cyfle i Bawb'. Drysau yn agor am 6.30pm. Tocynnau (£20 y pen) gan Enid (07974-959415) a Shirley (07918-193345).

**Iau, 12 Mehefin**
Digwyddiadau Melin. Noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes, yng Nghlwb Tenis yr Eglwys Newydd (CF14 1AW). Y drysau yn agor am 7.00pm. Mynediad trwy docyn yn unig. Tocynnau: £10 (ar gael o Siop y Felin). Manylion pellach ar dudalen facebook Melin: https://www.facebook.com/groups/melincymdeithasol/

**Iau, 12 Mehefin**
'Dragwyl' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 8.00pm. Oed: 18+. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/dragwyl

**Gwener, 13 Mehefin**
Menter Caerdydd. Tafwener: Noson Retro o Glasuron y 70/80/90au, ar safle Tafwyl ym Mharc Bute am 7.30pm. Tocynnau: £20. Manylion pellach: https://mentercaerdydd.cymru/event/tafwener_2025/29.

**Sadwrn–Sul, 14–15 Mehefin**
TAFWYL, ym Mharc Bute: https://tafwyl.org/

**Llun, 16 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Dr Marion Löffler ar y testun 'Cymraes o Ddwyrain yr Almaen', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Iau, 19 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Iechyd da a chadw'n iach, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Manylion pellach: mywyfelin@gmail.com. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Gwener, 20 Mehefin**
Datganiad ar ddwy delyn hanesyddol gan Elinor Bennett yn Eglwys Dewi Sant (CF10 3DD) am 7.30pm. Tocynnau (wrth y drws): £12.

**Llun, 23 Mehefin**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Erin Roberts (Prifysgol Abertawe) ar y testun 'Yr hinsawdd a ni: oes modd i ni wneud gwahaniaeth?' Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel: (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 26 Mehefin**
Digwyddiadau Melin. Taith gerdded am hanes yr Eglwys Newydd yng nghwmni Hefin Mathias. Manylion pellach am y daith ar dudalen facebook Melin: https://www.facebook.com/groups/melincymdeithasol/

**Iau, 26 Mehefin**
Menter Caerdydd. Ymweliad â Gardd Berlysiau'r Bont-faen am 6.00pm. Manylion pellach gan Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 26 Mehefin**
Theatr Cymru yn cyflwyno 'Brên Calon Fi' gan Bethan Marlow yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 7.00pm. Oed: 16+. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/bren-calon-fi

**Sadwrn, 28 Mehefin**
Perfformiad ar y delyn a'r ffidil gan Catrin Finch ac Aoife Ní Bhriain yn Eglwys San Mihangel, Machen Isaf, NP10 8GU, am 7.30pm. Tocynnau: £22 – trwy Ticketsource (https://www.ticketsource.co.uk/whats-on/newport/church-of-st-michaels-and-all-angels-lower-machen/catrin-finch-and-aoife-ni-bhriain-midsummer-magic-from-harp-and-violin/e-vxqpbb) neu wrth y drws.

**Llun, 30 Mehefin**
Menter Caerdydd. Gweithdy Ymlacio Sain dan ofal Geraint Thomas, yn festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, CF15 9HH, am 6.30pm. Pris: £25. I archebu lle, cysylltwch â sian@mentercaerdydd.cymru.

## Gorffennaf

**Mawrth, 1 Gorffennaf**
CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD, yn Porro, Llandaf (CF5 2DZ), am 6.30pm. Croeso cynnes.

**Iau, 3 Gorffennaf**
Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Sgleinio'r Lleuad' gan Caryl Lewis, cynhyrchiad theatrig i blant 3–7 oed a'u teuluoedd, yng Nghanolfan y Celfyddydau Memo, Y Barri, am 1.00pm. Manylion pellach: https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/sgleinior-lleuad/ neu ffoniwch 01446-738622.

**Iau, 3 Gorffennaf**
Gŵyl yr Eglwys Newydd a Thongwynlais. Sgwrs gan yr Athro E. Wyn James ar y testun '"Tynerwch ac afiaith": cyflwyniad i rai o gerddi ac emynau Mair Eluned Davies (1929–2023)', yng nghapel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DD, am 8.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 4 Gorffennaf**
Clwb Canna yn cyflwyno Candelas ac Anhunedd yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna, am 8.00pm (drysau'n agor am 7.30pm). Tocynnau: £15 o siop Caban, Pontcanna, neu drwy ticketsource.co.uk/clwbcanna.

**Sadwrn, 5 Gorffennaf**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.00am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Mawrth, 8 Gorffennaf**
Menter Caerdydd. Cerdded a Chlonc yn Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd, am 6.00pm. Manylion pellach: (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Mary Owen – ail i Ann Griffiths? (rhan 2)**

Un o emynyddesau amlycaf y Gymraeg yn y 19eg ganrif oedd Mary Owen (1796–1875). Fe'i ganed yn Llansawel (*Briton Ferry*), yn agos i aber Afon Nedd, ac yno y bu farw 150 o flynyddoedd yn ôl i eleni. Ond fel y nodwyd y tro diwethaf, er iddi fyw am yr rhan fwyaf o'i bywyd yn Llansawel, treuliodd gyfnodau hefyd mewn mannau eraill, a hynny yn bennaf oherwydd ei dwy briodas.

Priododd gapten llong o Gastell-nedd o'r enw Thomas Davies yn Awst 1825, ond am bum mlynedd yn unig y buont yn briod, oherwydd fe'i boddwyd mewn storm ar y môr yn Rhagfyr 1830. Priododd am yr ail waith yn 1836 â Robert Owen, a oedd ar y pryd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghwmafan, ond bu raid iddo roi'r gorau i'w weinidogaeth yno a symud i Abertawe yn 1840, am iddo ddechrau mynd yn gaeth i alcohol.

Aeth Robert yn weinidog wedyn am ychydig flynyddoedd i Lansadwrn yn sir Gaerfyrddin, ond rhoddodd y gorau i'r weinidogaeth yn 1844 a throi yn grwydryn alcoholig hyd ei farwolaeth yn 1857. Yn ganlyniad, dychwelodd Mary, ynghyd â'i dwy ferch o'i phriodas gyntaf, i Lansawel yn 1844, ac yno y bu'n byw weddill ei bywyd.

Bywyd digon trist a helbulus a gafodd Mary ar lawer cyfrif, felly, gan gynnwys bod yn gaeth i'w chartref am saith mlynedd olaf ei bywyd oherwydd afiechyd. Cyfeiriodd Branwen Jarvis mewn erthygl yn *Y Casglwr* yn 1994 at yr 'hyder a sicrwydd ffydd bersonol' a nodweddai emynau Mary Owen, gan sôn hefyd am y nodyn 'buddugoliaethus' a redai drwyddynt. Ac er pob cystudd a ddaeth i ran Mary, mae pob tystiolaeth yn awgrymu fod y ffydd Gristnogol gadarn a fynegir mor eglur yn ei hemynau wedi aros yn nodwedd ar ei bywyd hyd y diwedd.

Magwyd Mary mewn teulu Cristnogol. Roedd ei thad, David Rees, yn un o'r arweinwyr yn eglwys Annibynnol Maes-yr-haf, Castell-nedd, a daeth Mary ei hun i ffydd bersonol yn 18 mlwydd oed. Dechreuodd ysgrifennu emynau yn ei harddegau, ac erbyn ei chyfnod yng Nghwmafan, rhwng 1836 ac 1840, roedd wedi llunio digon o emynau i allu cyhoeddi cyfrol o 71 ohonynt dan y teitl *Hymnau ar Amryw Destunau* yn 1839.

Roedd hanner cyntaf y 19eg ganrif yn gyfnod o ddatblygu diwydiannol aruthrol yn hanes Cwmafan, fel y gwelwn o'r ffaith fod y boblogaeth yno wedi tyfu o lai na 150 yn 1800 i bron 800 erbyn 1830 ac i tua 2,000 erbyn 1840. Dechreuwyd cynhyrchu copr yng Nghwmafan – neu Gwmbychan fel y'i gelwid hefyd gan y trigolion – yn 1838, a'r gwaith copr hwnnw a oedd yn gyfrifol fod stac hynod wedi ei chodi ar y Foel uwchben y pentref. Dyma ran o'r hyn sydd gan un a fagwyd yn yr ardal, sef y canwr Cleif Harpwood, i'w ddweud am y stac honno yn ei hunangofiant, *Breuddwyd Roc a Rôl?* (2022):

> Roedd trin copr yn fusnes brwnt ac yn nyddie cynnar y diwydiant ro'dd llygredd y gweithfeydd yn ofid mawr i amaethwyr a thrigolion y dyffryn. Ro'dd y mwg gwenwynig yn lladd eu hanifeiliaid, yn 'strywa'u cnyde, a'i effeithie ar iechyd y gymuned yn ddifrifol. […] Yr ateb o'dd adeiladu un o ryfeddodau'r Gymru ddiwydiannol, Stac y Foel. Simne o'dd hon a dynnai fwg afiach y gwaith copr 1,100 o droedfeddi o waelod y cwm i gopa Foel Fynydde, mynydd ucha gorllewin Morgannwg. Adeiladwyd corn simne, twnnel hir o waith brics, i gario'r mwg lan y llethre serth i'r stac, [… a o'dd] yn frawychus ei golwg oherwydd y torchau o fwg a thân o'dd yn arllwys ohoni, ro'dd fel llosgfynydd, a gyda'r nos fe oleuai ardal eang o'i chwmpas.

Yn 40 troedfedd o uchder, roedd y stac i'w gweld o bellter mawr, fel y pwysleisiwyd mewn triban gan un o feirdd yr ardal, William Rees o'r Pandy (ger Gyfylchi), y dywedir ei fod yn perthyn i Williams Pantycelyn:

> Fi wela' Stac Cwmbychan
> Yn amlwg braidd o bobman,
> A'r mwg yn dorchau gwyd o'i phen
> Uwchben hen ddyffryn Afan.

Roedd y stac i'w gweld ymhell ar draws Môr Hafren, ac fe'i dymchwelwyd yn 1940 i rwystro iddi fod yn gymorth i arwain awyrennau'r Almaen ar eu cyrchoedd bomio.

Roedd y beirdd yn hoff o lunio tribannau doniol y gellid eu galw'n rhai 'dwli', a dyma un i Stac y Foel (ystyr 'cwnnu' yw 'codi'):

> Fi welas Stac Cwmbychan
> Yn cwnnu i ffwrdd a hedfan,
> Ac yn dishgyn cyn pen awr
> I lawr yng nghanol Llundan.

Fel y nodais yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd*, profodd cyfrol emynau Mary Owen yn boblogaidd yn syth. Aeth i ail argraffiad yn 1840, pan oedd Mary yn dal yng Nghwmafan, ac yna i drydydd a phedwerydd argraffiad yn 1841 ac 1842. Dyna, felly, bedwar argraffiad mewn pedair blynedd! Ac erbyn yr argraffiad olaf, yn 1842, roedd cyfanswm yr emynau wedi tyfu o 71 i 82.

Mae'r gyfrol yn agor ag emyn am Dduw'r Crëwr. Mae'r ail emyn, wedyn, yn sôn fod Duw, hyd yn oed cyn y Creu, wedi trefnu o'i 'gariad annherfynol' i'w Fab, Iesu Grist, farw ar y groes er mwyn gallu cynnig 'pardwn rhad' i 'fyd o golledigion'. Yna, mae'r trydydd emyn yn darlunio taith ddaearol y 'rhai sy'n caru Duw', a'u gobaith sicr, er bod y tonnau'n curo arnynt yn aml nes peri 'ergydion trymion', y byddant yn cyrraedd y 'porthladd dedwydd' nefol yn ddiogel yn y diwedd, am fod eu Tad 'wrth y llyw'.

Agweddau ar y themâu sydd yn yr ail a'r trydydd o emynau'r gyfrol yw'r rhai llywodraethol yn emynau Mary Owen drwyddynt draw. Dywedodd Elfed ar ddechrau'r 20fed ganrif fod miloedd, wrth ganu ei phenillion syml a diffuant, wedi dod 'i ymhyfrydu yn y cariad sy'n "lletach na'r moroedd" [ac] i ganfod yr hafan tu draw i'r "don ddiwethaf"'. Ac wrth iddi ganolbwyntio ar ryfeddod Person Crist a'i waith achubol ac ar anawsterau 'taith y pererin', gan fynegi hiraeth mawr am fod gyda Christ i dragwyddoldeb, gwelwn waith Mary Owen yn ymdebygu o ran ei brif themâu i eiddo emynwyr eraill 'oes aur' yr emyn Cymraeg o ddyddiau Williams Pantycelyn ymlaen.

Erbyn ail argraffiad ei chyfrol o emynau yn 1840, roedd ugain pennill wedi eu hychwanegu ar y diwedd, lle y mae Mary Owen yn mydryddu'r gwahanol enwau a theitlau a roddwyd ar Iesu Grist yn y Beibl, a hynny yn nhrefn yr wyddor fesul pennill. Mae'n dipyn o orchestwaith, fel y gwelir o'r pennill hwn, sy'n cynnwys yr enwau a'r teitlau ar Grist sy'n dechrau â'r llythyren B:

Bachgen, Baner, Bendigedig,
Bywyd, Balm o Gilead pur,
Bugail, Barnwr, Brenin, Blaenffrwyth,
Blaenor, a Blaguryn ir;
Bara'r bywyd,
Brenin y brenhinoedd yw.

A dyma'r cyfeiriadau ysgrythurol a osododd Mary o dan y pennill hwnnw: Eseia 9:6; Eseia 5:26; 1 Timotheus 6:15; Ioan 14:6; Ioan 10:11; Actau 10:42; Mathew 21:51; 1 Corinthiaid 15:23; Eseia 55:4; Sechareia 3:8; Ioan 6:48; 1 Timotheus 6:15.

O ystyried poblogrwydd ei chyfrol a'r ffaith fod nifer o'i hemynau wedi eu dethol i gasgliadau emynau ar draws y blynyddoedd, nid yw'n rhyfedd gweld Elfed yn hawlio yn 1903 mai Mary Owen oedd y fenyw nesaf at Ann Griffiths o ran poblogrwydd ei hemynau. Wrth gwrs – ac yn debyg yn hynny o beth i bron pob emynydd Cymraeg arall, gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd – nid yw Mary Owen yn yr un cae ag Ann Griffiths. Fel y dywed Elfed, 'Ni cheir yn ei gwaith hi yr angerddolder sy'n rhoi'r fath wreiddioldeb i emynau Ann Griffiths.' Ond wedi dweud hynny, ar sail ei hemynau gorau, gellir cytuno'n galonnog â J. Seymour Rees (1887–1963) pan ddywed mewn erthygl ar Mary Owen yn *Y Llenor* yn 1946 ei bod yn haeddu cael ei chanmol am ei chyfraniad i fyd yr emyn.

Ei hemyn gorau, heb os, yw 'Dyma gariad, pwy a'i traetha?' Bron yn syth wedi iddo gael ei gyhoeddi ganddi yn 1839, fe'i cynhwyswyd yn *Casgliad o dros Ddwy Fil o Hymnau* (1841), dan olygyddiaeth y gweinidog Annibynnol amlwg o Lanbryn-mair, Samuel Roberts ('S.R.'; 1800–85). Yng nghyfrol Mary, mae dau bennill yr emyn yn ddau emyn ar wahân (sef rhifau 19 a 20), ond yng nghasgliad S.R., mae'r ddau wedi eu cyfuno'n un emyn (sef rhif 481), a chafwyd hefyd rywfaint o ddiwygio ar y geiriad yma a thraw. A'r emyn fel y mae yng nghasgliad S.R. yw'r ffurf arferol sydd arno, fwy neu lai, yn y casgliadau emynau o hynny i lawr hyd at *Caneuon Ffydd* (2001).

Emyn am gariad rhyfeddol Iesu Grist, ei Phriod nefol, yw 'Dyma gariad, pwy a'i traetha?', ac yn enwedig fel y mae'r cariad hwnnw'n cael ei fynegi yn ei farwolaeth ar y groes. Mae'r llinell gyntaf, ac yn wir yr emyn ar ei hyd, yn ein hatgoffa o 'Dyma gariad fel y moroedd', emyn enwog Gwilym Hiraethog (William Rees, 1802–83), a oedd yntau hefyd yn weinidog dylanwadol gyda'r Annibynwyr.

Mae emyn Hiraethog yn un hynod boblogaidd, wrth gwrs, nid lleiaf oherwydd iddo ddod i gymaint amlygrwydd adeg Diwygiad1904/05 nes ennill y llysenw 'Cariadgan y Diwygiad'. Detholwyd ei emyn ef yn amlach nag un Mary i gasgliadau emynau dros y blynyddoedd, ond mae rhywun yn synhwyro fod ei hemyn hi yn dod yn gynyddol boblogaidd yn ein dyddiau ni.

Mae'r ddau emyn yn debyg iawn o ran thema, mesur a hyd, ond mae rhai gwahaniaethau arwyddocaol hefyd. Mae emyn Hiraethog yn fwy gwrthrychol, lle y mae emyn Mary yn gyforiog o'i hymateb personol hi i gariad Crist. Gellid dadlau hefyd fod ei hemyn hi yn 'gywirach', gan nad cariad 'fel y moroedd' yw cariad Crist, ond un sy'n lletach na'r moroedd ac yn uwch na'r nefoedd.

Cyhoeddwyd emyn Gwilym Hiraethog yn 1847, wyth mlynedd ar ôl emyn Mary Owen. Mae'n eithaf posibl, felly, i Hiraethog gael ei ysbrydoli i lunio ei emyn ef gan ei hemyn hi. Ond bid a fo am hynny, wrth eu gosod yn gyfochrog â'i gilydd, mae'r ddau emyn yn ymffurfio'n fath o 'ddeuawd', gyda'r naill yn cyfoethogi'r llall ac yn creu rhyngddynt gyfanwaith soniarus a phwerus; ac yn sicr, mae'r ddau fel ei gilydd ymhlith emynau mawr y Gymraeg.

Fel y nodwyd uchod, diwygiwyd rywfaint ar eiriad penillion Mary Owen erbyn iddynt gael eu cynnwys yng nghasgliad emynau S.R. yn 1841. Mae rhywbeth i'w ddweud o blaid y fersiwn gwreiddiol a'r un diwygiedig. Yn yr ail bennill, er enghraifft, mae'r ailadrodd ar y gair 'ymddiriedaf' yn y tair llinell agoriadol wedi ei ddisodli gan y geiriau 'ymlochesaf', 'ymgysgodaf' ac 'ymddigrifaf' yn fersiwn casgliad S.R. Gellid dadlau fod y dweud o'r herwydd yn fwy cywrain a chyfoethog. Ond o'r ochr arall, mae i'r ailadrodd ar y gair 'ymddiriedaf' ryw daerineb syml, sydd hefyd yn cyfateb i'r ailadrodd cyson ar 'Dyma gariad' sy'n rhedeg trwy'r pennill cyntaf. Hefyd, mae'r fersiwn diwygiedig, a'i 'Ymddiriedaf yn dragwyddol' yn y llinell olaf ond un, yn dlotach o golli'r nodyn o ryfeddod a drewir yn niwedd fersiwn gwreiddiol Mary.

Dyma, i gloi, emyn Mary Owen fel y'i cyhoeddwyd ganddi yn wreiddiol, er mwyn ichi allu ei gymharu â'r fersiwn diwygiedig sydd i'w weld yn y casgliadau emynau i lawr hyd at *Caneuon Ffydd*, a phenderfynu drosoch chi eich hunan ba fersiwn sydd well gennych.

Dyma gariad, pwy a'i traetha?
Anchwiliadwy ydyw ef;
Dyma gariad byth ni ellir
Treiddio i'w ddyfnderoedd ef;
Dyma gariad gwyd fy enaid
Uwchlaw pethau gwael y llawr;
Dyma gariad wna im' ganu
Yn y tragwyddoldeb mawr.

Ymddiriedaf yn ei glwyfau,
Ymddiriedaf yn ei groes,
Ymddiriedaf yn ei gariad,
Cariad mwy na hwn nid oes;
Cariad lletach yw na'r moroedd,
Uwch na'r nefoedd hefyd yw;
Mwy rhyfeddaf yn dragwyddol
At anfeidrol gariad Duw.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EBENESER

**Masnach Deg**

Ar ddau Sul ym mis Mai fe gafwyd stondin Masnach Deg yn dilyn yr oedfaon, ac fe gafwyd cyfle i brynu rhai o'r nwyddau. Mae Masnach Deg yn fudiad byd-eang sy'n rhoi pobl a'r blaned o flaen elw. Pan fydd cynhyrchwyr yn derbyn pris teg am eu nwyddau mae'n arwain at well amgylchedd gwaith a gwell ansawdd bywyd iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae Masnach Deg yn cymryd agwedd gyfannol trwy gysylltu cynhyrchwyr a defnyddwyr, trwy wneud cadwyni cyflenwi yn fwy eglur, a chynnig gwell dewisiadau ar gyfer siopa'n gyfrifol. Dylai cyfiawnder, tegwch a datblygu cynaliadwy fod wrth wraidd strwythurau masnach gyfartal ac mae Masnach Deg yn bartneriaeth ar gyfer newid a datblygu trwy fasnach.

Gellir prynu nwyddau Masnach Deg yn yr holl archfarchnadoedd, felly chwiliwch am yr arwyddlun. Diolch i Rachel Jones am ddarparu'r nwyddau

**Carreg filltir**

Mae Helen Thomas wedi ymuno â chlwb y 60au! Dathlodd ei phen-blwydd yn 60 oed ar 24ain o Ebrill. Bu hi a Denver ar wyliau yn y dwyrain pell fis Ionawr ac yng Nghernyw fis Ebrill.

**Diwrnod arbennig**

Ar ddydd Gwener 9fed o Fai yn yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Newydd cynhaliwyd gwasanaeth priodasol Carys Mair Jones a Nathan Richards. Cafwyd paned a chacen yn y festri ar ôl y gwasanaeth, cyn symud ymlaen i ddathlu yn Pencoed House, Pentyrch. Aethon nhw am wythnos fach i Sardinia ar eu mis mêl. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r dyfodol iddyn nhw.



**Llanllanast**

Yn ystod y ddau fis diwethaf fe fu 2 sesiwn o Llanllanast. Roedd y sesiwn gyntaf yn un Pasg ar gyfer pob oed. Cafwyd amser gwych gyda'n gilydd yn gwneud crefftau oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau arwyddocaol Y Groes a'r Atgyfodiad. Testun sesiwn mis Mai ar gyfer plant a'u rhieni oedd y Pentecost. Roedd gemau a chrefftau yn cyfeirio at yr elfennau pwysig, sef gwynt a fflamau, wrth i Dduw anfon yr Ysbryd Glân. Diolch i'r tîm diwyd sy'n paratoi yn fanwl ar gyfer y sesiynau hyn o fis i fis ac i'r rhai ychwanegol sy'n helpu. Cynhelir y Llanllanast nesaf 22ain Mehefin am 10.00 yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Testun - Iesu a'r dyn cloff.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Arholiadau**

Mae'n gyfnod arholiadau unwaith yn rhagor a dymunwn yn dda i ieuenctid yr eglwys sy'n wynebu arholiadau TGAU a Lefel A . Cofiwn hefyd am y rhai sydd eisoes yn y coleg ac yn wynebu arholiadau yno.

**Cyfnewid Pulpudau**

Yn ddiweddar roedd yn braf croesawu atom Derrick Adams, gweinidog Eglwys Efengylaidd Aberystwyth, tra bod Emyr, ein gweinidog ni yn gweinidogaethu yno. Yn y bore pregethodd Derrick o bennod 5 o'r epistol at y Rhufeiniaid, lle mae Paul yn ein hatgoffa am ryfeddod gras Duw yn ein cymodi ni ag Ef ei hun trwy fywyd a marwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn ystod oedfa'r hwyr roedd yn wych clywed gan David Magowan, gweinidog eglwys Carey yn Reading. Mae David yn dad i un o'n haelodau ifanc Angharad Alter, sy bellach yn hollol rugl yn y Gymraeg. Mae eglwys Carey, yn y blynyddoedd diweddar, wedi plannu dwy eglwys arall, un yng ngorllewin Reading ac un yn nwyrain y dre. Soniodd am rai ceiswyr lloches o Ladin America sydd wedi dod i ffydd yn Iesu Grist ar ôl gorfod ffoi o'u gwledydd eu hunain. Roedd yr hanes yn galonogol iawn i ni yng Nghymru sy'n gyfarwydd â chlywed yn wythnosol am gapeli'n cau. Gweddïwn y bydd Duw yn gwneud gwaith tebyg yn ein gwlad annwyl ni.

**Amser Paned**

Dewch i fwynhau paned, sgwrs a chwmni rhwng 10 y bore a hanner dydd, yn festri'r Tabernacl Yr Eglwys Newydd.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cydymdeimlad**

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr. Michael Jones. Bu'n aelod ffyddlon yn yr oedfaon ac ef oedd Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau. Mae'n cydymdeimlad dwysaf â Garmon, Mererid, Gwenfair a Rhiannon a'u teuluoedd yn eu hiraeth. Gwelir ei eisiau yn fawr iawn.

**Cyfarchion**

Llongyfarchiadau i'r plant a'r ieuenctid am eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym Margam. Rydym yn falch iawn ohonynt.

Braf oedd cael cwmni ein cyfeillion o Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn ein Cyfarfod Pregethu gyda'r Athro John Tudno Jones yn arwain.

**Cymorth Cristnogol**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol hynod nodedig. Diolch i'r aelodau a gymerodd ran ac yn arbennig i Siân Griffiths am yr holl drefniadau. Cafwyd casgliad ariannol o £475 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

**Trefn Gwasanaethau Gorffennaf, yr oedfaon am 10.30 a 6.00 o'r gloch**

Gorffennaf 6ed – Parch. Glyn Tudwal Jones. Oedfa Gymun yn y bore

Gorffennaf 13eg – Mr Thomas Ellis Williams

Gorffennaf 20fed – Parch. Aled Edwards

Gorffennaf 27ain – Bore: Mr Thomas Ellis Williams; Hwyr: Mrs Margaret Jones

## TABERNACL, YR AIS



Dydd Llun, 7 Ebrill, dathlodd y Parchedig Peter Dewi Richards ei ben-blwydd yn 80 oed. Cafodd dipyn o syrpreis yn y Tabernacl y diwrnod cynt. Trefnodd ein gweinidog gwis arbennig gyda lluniau diddorol, yn portreadu gyrfa Peter a'i wasanaeth dros y blynyddoedd. Cyfansoddodd y Parchedig Denzil John soned iddo a'i darllen yn yr oedfa. Heb yn wybod i Peter, ar gais Bethan ei ferch, trefnwyd parti i bawb yn y festri wedi'r oedfa.

Calan Mai, daeth cynulleidfa niferus i'r Tabernacl i wrando ar ein Gweinidog, Y Parchedig Ddoctor Rosa Hunt yn traddodi Darlith Goffa Dr Pennar Davies a Dr Tudur Jones. 'Pwy yw Iesu Grist i ni yng Nghymru heddiw?' oedd teitl y ddarlith athrylithgar hon. Diolch i Rosa am ei chrynhoi.

Mae'r ddarlith hon yn trafod pwysigrwydd Credo Nicaea, a sut y daeth i fodolaeth. Mae'n esbonio sut y cyfansoddwyd y credo yn ystod cyfnod o ansicrwydd gwleidyddol a chrefyddol, pan oedd Cristnogion yn anghytuno ar natur Iesu Grist. Roedd y ddadl yn canolbwyntio ar y cwestiwn a oedd Iesu'n Dduw neu'n greadur arbennig a grëwyd gan Dduw. 'Roedd Arius yn dadlau bod Iesu wedi cael ei greu gan Dduw, tra bod Athanasius yn mynnu bod Iesu wedi bodoli erioed fel y Tad. Yn y diwedd, penderfynodd Cyngor Nicaea fod Iesu'n un hanfod â'r Tad, gan ddefnyddio'r term "homoousion" i ddisgrifio'r berthynas hon.

Mae'r ddarlith hefyd yn trafod pam mae credoau'n bwysig i Gristnogion, gan nodi eu rôl mewn dysgu, darllen, a diffinio'r ffydd. Mae'n pwysleisio bod credoau'n helpu Cristnogion i ddeall a chredu pwy yw Iesu, ac yn diffinio hunaniaeth y gymuned Gristnogol. Yn olaf, mae'r ddarlith yn ystyried arwyddocâd Credo Nicaea i ni heddiw, gan bwysleisio'r angen i gofio bod Iesu'n Dduw ac yn ddyn, a sut mae hyn yn dylanwadu ar ein bywydau a'n ffydd.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m.):**
**Mis Mehefin:**

1 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion
8 – Parchedig Denzil John
15 – Huw Lloyd
22 – Sian Meinir
29 – Allan Cook

O gwmpas y Sgwâr, lle cefais i fy magu, 'roedd 'na gymdeithas glos yn gofalu amdanom, fel pe baem yn perthyn i'n gilydd, yn aelodau o'r un teulu estynedig a oedd yn rhannu'r un dyheadau a gobeithion mewn bywyd.

'Roedd gennyf 'Antis ac Yncls' di-ri, a oedd yn hael eu cymwynas a'u cymorth

Coffa da am Antis Jini, Ceren, Beti, Elen, Yncls Moi, Osborne, Dic - ac 'roedd 'na ambell Yncl Bob yn bodoli yn ogystal.

Fe wyddom mwyach fod 1.3 biliwn o boblogaeth y byd wedi croesawu Yncl Bob newydd i'w plith.

'Roeddwn ar daith yn yr Eidal ar Fai yr 8fed, pan ddangosodd sianeli teledu y wlad y mŵg gwyn ("*fumata bianca*") o simdde Capel y Sistine, i ddynodi "*Habemus Papam* - mae gennym Bâb".

Gwelwyd yr Americanwr, y Cardinal Robert Francis Prevost, ("Bob o Dolton, de Chicago") yn trawsnewid i fod yn Bâb Leo XIV, y 267ed yn olyniaeth Sant Pedr.

Yn Offeren gyntaf ei weinidogaeth ar Sgwâr Sant Pedr, meddai:-

"*Fe'm dewiswyd, heb unrhyw haeddiant fy hunan, ond 'nawr, yn grynedig a gydag ofn, fe ddof i'ch plith fel brawd, sy'n dymuno bod yn was i'ch ffydd a'ch llawenydd, gan gyd-gerdded gyda chwi ar hyd llwybr cariad Duw, oherwydd dyna ei ddyhead i ni i gyd fod yn un teulu.*"

*"Mae'n fyd, ar hyn o bryd, yn llawn anghytgord, ac mae gormod o ddolur oherwydd atgasedd, trais, rhagfarn, ac ofn gwahaniaethau; a pharadeim economaidd sydd yn bygwth adnoddau'r Byd, gan wthio'r tlotaf i'r ymylon eithaf...*

*…Gyda'n gilydd, fel un, yn frodyr a chwiorydd, gadewch i ni gerdded tuag at Dduw a charu ein gilydd."*

Croeso i ti i'n cwmni Yncl Bob!

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org
@MinnyStreet Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Wythnos Cymorth Cristnogol**

Daeth criw da ynghyd i gymdeithasu a mwynhau danteithion te Cymreig ddydd Sadwrn, 17 Mai. Diolch i bawb a drefnodd wledd ar ein cyfer y prynhawn hwnnw a'r bore trannoeth wedi'r oedfa foreol. Codwyd £720.00 drwy ymdrechion y penwythnos ynghyd â'r casgliadau rhydd yn yr oedfaon.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 1, 8 a 15 Mehefin. Gweinyddir y cymun mewn dwy oedfa yn ystod y mis, y gyntaf yn ystod oedfa hwyrol 1 Mehefin a'r llall yn oedfa foreol y Sulgwyn, sef 8 Mehefin. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Kevin Davies ddydd Sul, 22 Mehefin. Ar Sul olaf y mis, ein cyd-aelodau fydd yn arwain yr oedfaon.

Bydd Ysgol Sul yn cael ei chynnal ar 1, 15, 22, 29 Mehefin; ar 22 Mehefin, cynhelir Ysgol Sul i'r plant hŷn hefyd a dilynir yr Ysgol Sul gan weithgaredd arbennig i deuluoedd ifanc yr eglwys. Bydd PIMS yn cwrdd nos Sul, 1 Mehefin am 17:00. Bydd cyfle, fel arfer, i ymuno â sawl oedfa drwy gyfrwng *Zoom.*

**Gweithgarwch y mis**

Gallwn edrych ymlaen at sawl gweithgaredd yn ystod y mis: arweiniad ein Gweinidog mewn dau gyfarfod pellach o'r gyfres ddifyr *Trafod a chreu*; taith i ardal Henffordd ddechrau'r mis; bore coffi ar 12 Mehefin yng nghartref aelod; Koinônia nos Sul, 15 Mehefin.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am ddau o'n cyd-aelodau, sef Gareth Wallis Evans (Parc Fictoria) a Menna Brown (Llanisien). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau deulu a'u holl gyfeillion.

**Dymuniadau da i'n Gweinidog**

Dymunwn yn dda i'n gweinidog wrth iddo ddod i lywyddiaeth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn Nant Gwrtheyrn ym mis Mehefin.

## SALEM, TREGANNA

**Y Pasg**

Diolch yn fawr i Evan am ei arweiniad yn ein hoedfaon dros y Pasg. Roedd mor braf ei groesawu atom wrth iddo barhau i wella.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Anna a Gwion a briododd yn Salem ddydd Sadwrn 26 Ebrill. Dymuniadau gorau i chi ar gyfer y dyfodol.

**Bedydd**

Roedd yn hyfryd bedyddio Noa, mab Martyn a Manon, yn ystod yr oedfa fore Sul 11 Mai. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Sasiwn Genhadol y De**

Cynhaliwyd Sasiwn Genhadol y De yn Salem ddydd Iau 22 Ebrill, a braf iawn oedd croesawu aelodau o bob cwr o'r rhanbarth. Roedd yn achlysur arbennig, a chafwyd Anerchiad gan y Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Cafwyd hefyd gyfle i foli'r Arglwydd, i gofio cenhadon ar draws y byd, a chymdeithasu ymysg ffrindiau hen a newydd.

**Gweithgareddau eraill**

Clwb Brecwast i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin - Bore Mercher 18 Mehefin a 2 Gorffennaf rhwng 9.45 a 11.15.

Clwb Coffi – Bore Gwener 31 Mehefin a 11 Gorffennaf rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb Criced**

Llongyfarchiadau i'r Clwb Criced ar ei lwyddiannau diweddar. Cynhelir y gemau nesaf ar Gae'r Esgob ar nos Lun 16 a 30 Mehefin am 6.00



**Clwb y Bobol Ifanc**

Braf iawn yw gweld llu o bobl ifanc yn troi i mewn i Glwb y Bobl Ifanc. Cafwyd noson hwyliog iawn o dwrnamaint dartiau yn y festri yn ddiweddar.

**Noson Gymdeithasol**

Rydym yn edrych ymlaen at gynnal digwyddiad cymdeithasol a mynd ar daith gerdded fer nos Iau 10 Gorffennaf – nodwch y dyddiad yn eich calendr.

Os hoffech ragor o fanylion am ein gweithgareddau neu ein gwasanaethau dilynwch ni ar Facebook, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org

## BETHEL, PENARTH

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda dwy o'n plith a'u teuluoedd yn eu galar diweddar: Sian Meinir ar farw ei thad ac Emma ar farw ei thad-yng- nghyfraith.

Bu Sadwrn, Mai 3ydd, yn ddydiad cyngerdd arbennig pan fu Llinos Haf a'i chyfeilydd Alexandra van Wyk yn ein difyrru gyda rhaglen heriol a swynol yn amlygu sut mae llais Llinos wedi datblygu dros y blynyddoedd. Ers iddi fod yn ferch fach bu Llinos wastad yn barod iawn ei gwasanaeth ym Methel. Erbyn hyn mae hi wedi gorffen ei chyfnod yn Academi Llundain ac ar fin cychwyn ar yrfa opera. Dymunwn y gorau iddi.

Yn ystod yr oedfa ar Fai 4ydd cafwyd cyfle i drosglwyddo siec sylweddol i'n helusen am 2024, Côr Forget-Me-Not. Bu'n hyfrydwch cael Kate Harry yn yr oedfa yn mynegi gwerthfawrogiad yr elusen.

Nos Fercher Mai 14 bu'n bleser gan Fethel i groesawu cyfarfod ein cyfundeb yn y cwrdd chwarterol. Pleser neilltuol oedd gwrando ar y Parchedig Aled Davies (Cyhoeddiadau'r Gair) yn disgrifio'r doreth o ddeunyddiau deniadol, swmpus ei gwmni ar gyfer cynorthwyo eglwysi i gynnal oedfaon a chyflwyno gwasanaeth lleol; mae rhywbeth ar gyfer pob oed.

Ar Sul Mai 18 cawsom oedfa ychydig yn wahanol wrth i ni drafod deunydd a baratowyd gan Sian Meinir ar y thema Distawrwydd; roedd hyn yn ddilyniant i'r cyflwyniad a rannodd Sian gyda ni y Sul blaenorol. Ym mhlith y myfyrdodau oedd un ar emyn 705 gan Bantycelyn. Yn annisgwyl roedd gennym hen lyfr o holl emynau Williams a gyhoeddwyd yn 1811. Ar ddiwedd yr oedfa yn fwy annisgwyl fyth cawsom wybod gan un oedd yn bresennol, Bryan, ei fod yn perthyn i Bantycelyn! Roedd ei dad wedi llunio coeden deulu yn profi'r cyswllt. Holwn am fwy gan Bryan.

## EGLWYS DEWI SANT

**Cyngerdd Awr Ginio**

Cynhaliwyd cyngerdd awr ginio dan nawdd Actifyddion Artistig Caerdydd ddydd Mawrth, 6ed Mai gyda'r *London Winds* yn perfformio.

**Coffi a Chlonc**

Cafwyd bore byrlymus a hwyliog iawn yn y bore coffi i siaradwyr newydd fore Sadwrn, 17eg Mai. Da oedd gweld nifer yn bresennol. Diolch i Beti a Delyth am eu gwaith gweini.

**Festri'r Pasg**

Cynhaliwyd Festri'r Pasg, sef cyfarfod blynyddol yr eglwys, ar ôl y gwasanaeth fore Sul, 11eg Mai. Dosbarthwyd copïau o'r adroddiad blynyddol ymlaen llaw. Derbyniodd Rhys Jones wahoddiad y ficer i barhau fel Warden y Ficer ac etholwyd Delyth Davies i barhau fel Warden y Bobl.

**Cymorth Cristnogol**

Mae Cymorth Cristnogol yn dathlu ei 80 mlwyddiant eleni a'r thema yw 'Gobaith Diderfyn' sy'n canolbwyntio ar y gwaith a wneir yn Guatemala yn cefnogi cymunedau brodorol i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar eu bywydau beunyddiol. Trefnwyd casgliad arbennig gan yr eglwys ac mae'n fwriad hefyd i gynnal stondin cynnyrch cartref ym mis Mehefin.

**Cynhadledd y Ddeoniaeth**

Bu cynrychiolwyr o Eglwys Dewi Sant mewn cynhadledd nos Iau, 22ain Mai, yn Eglwys St Margaret y Rhath, i wrando ar wahanol safbwyntiau ar briodasau un rhyw wrth i'r Eglwys yng Nghymru geisio penderfynu ar y ffordd ymlaen ynglŷn â'r mater.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Elinor a Jon Sullivan ar enedigaeth eu mab bychan, ŵyr i Hedd a Graham Carson.

**Cydymdeimlo**

Gyda gofid y derbyniwyd y newyddion trist am farw Cynthia Davies. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf fel eglwys â Sion ag Angharad a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod mis Mai cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud Noa Evans, Rhys ab Owen a Gwyndaf Roberts.

Ar Fai 25 roedd yn bleser cael bod yn rhan o wasanaeth bedydd Alaw Haf, merch fach Lisa a Trystan. Roedd y gwasanaeth dan arweiniad ein gweinidog y Parch. T. Evan Morgan. Seiliodd ei bregeth ar y tri gair- gwrando, gweithio a gobeithio. Roedd Alaw yn dawel iawn ac yn amlwg yn gwrando'n astud yn ei ffrog wen draddodiadol.

Edrychwn ymlaen at achlysur pwysig arall ym mis Mehefin pan gynhelir gwasanaeth bedydd Tomos, ail fab i Angharad a Gavin ac ŵyr i Carol a Tony.

Rydym yn hapus iawn i longyfarch un o'n haelodau, Dilwyn Jones, ar ennill y goron am yr ail waith yn Eisteddfod y Bont.

Cynhelir yr ysgol Sul nesaf ar Fehefin 22

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Mae Pab newydd gyda ni! Roedd cyffro mawr yn Sgwâr Sant Pedr a thrwy'r byd ar 8 Mai pan welwyd y mwg gwyn yn codi o'r simne rhyfedd yna uwchben y Capel Sistine – pwy fydd y Pab newydd? Sut un fydd e? A dyna lawenydd pan ymddangosodd Pab Leo XIV ar y balconi – y Cardinal Robert Provost, gŵr o Chicago'n wreiddiol, oedd wedi cael ei ddewis i arwain yr Eglwys i'r blynyddoedd nesaf.

Ei eiriau cyntaf oedd 'Pax vobiscum' - Tangnefedd fo gyda chi. Dyna neges roddodd obaith i bawb oedd yn gwrando. Roedd ei ddewis o enw yn arwyddocaol hefyd. Gwaddol parhaol y Pab Leo XIII oedd Rerum Novarum, y llythyr i'r Eglwys yn 1891 a osododd sail i ddysgeidiaeth yr Eglwys ar gyfiawnder cymdeithasol.

Mae'r Pab Leo XIV yn perthyn i Urdd Brodyr Awstin Sant, ac mae wedi treulio blynyddoedd lawer yn gweithio ym Mheriw gyda chymunedau tlotaf y wlad. Yn nysgeidiaeth Awstin Sant, mae cariad at Dduw a chariad at gymydog yn agos iawn at ei gilydd - ble bynnag fo'r cymydog hwnnw. Fel Cardinal yn Rhufain, bu Leo XIV yn cydweithio'n agos â'r Pab Ffransis, ac mae'n rhannu gwerthoedd tebyg am le'r Eglwys yn y byd. Edrychwn ymlaen at ei arweiniad ysbrydol i'r dyfodol.

Ar 24 Mehefin, byddwn ni'n dathlu Gŵyl Ifan - y diwrnod mae'r Eglwys yn dathlu pen-blwydd Ioan Fedyddiwr. Dyma'r unig ŵyl o holl ddathliadau'r saint yng nghalendr yr Eglwys pan fyddwn yn dathlu diwrnod geni'r sant. Mae'r gwyliau eraill i gyd yn nodi diwrnod eu marw. Gŵyl a sant arbennig iawn felly.

Llongyfarchiadau i Geoff Wright ar redeg Marathon Llundain eto. Gyda'i deulu yno i'w gefnogi ar hyd y ffordd, ac ar waetha'r tywydd twym, fe lwyddodd i gyflawni'r ras ddeng munud o fewn ei amser darged. Mae e wedi datgan yn bendant taw dyma'r un olaf iddo, er y bydd yn gweld eisiau'r cyfleoedd i godi arian i elusennau drwy herio'i hun mewn rasys hir. Y tro yma cododd ymhell dros ddwy fil o bunnoedd i elusen Canser y Gwaed er cof am ei frawd. Da iawn Geoff!

Offeren fisol Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd: 29 Mehefin, 4 30 o'r gloch.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## YR EGLWYS YNG NGHYMRU

**Yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf, Caerdydd**.

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid bob bore Iau am 9.30 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn ym mhentref Llandaf.

**Eglwys Sant Luc, Parc Cimdda / Victoria, Treganna, Caerdydd**.

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 8/06/2025 am 4 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn.

**Eglwys Santes Catherine, Pontcanna, Caerdydd (ger Siop Caban).**

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 22/06/2025 am 4 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn.

Bu aelodau'r eglwysi yn brysur yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol yn trefnu a chasglu cyfraniadau i waith y corff. Trefnwyd casgliadau o ddrws i ddrws, yn ystod y gwasanaethau, sêl grefftau, gweithgareddau yn yr ysgolion lleol a the mefus yn Llys Esgob, Llandaf. Dechreuodd Cymorth Cristnogol yn 1957. Y gobaith yn y 60au oedd codi ymwybyddiaeth o fygythiad diffyg bwyd a'r posibilrwydd o newyn. Mae'r trefnwyr yn parhau i gyfrif y cyfraniadau, sydd wedi cyrraedd sawl mil o bunnoedd yn barod. Eleni roedd Wythnos Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar gyflwr sychder sy'n wynebu nifer o wledydd ar draws y byd.

---

# Cymdeithas Yr Iaith
# Ail-lansio
# Cell Caerdydd

Mae cell leol Cymdeithas yma yng Nghaerdydd wedi ailffurfio. Cafodd cyfarfod cyntaf y gell ei chynnal ym mis Chwefror, a'r ail ym mis Ebrill. Mi fydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Fehefin.

Mae'n bwysig ein bod yn ymgyrchu dros yr iaith o hyd. Mi welir ton fawr o ewyllys da tuag at yr iaith, ond nid ydym yn gweld newidiadau deddfwriaethol neu ymarferol sydd yn cyfateb â hynny. Mae'r Gymraeg dal o dan fygythiad, ac er dyle hi fod ar gael i bob person yng Nghymru, ac er ei bod yn llesol, yn hardd ac yn greiddiol i Gymru gyfan, gwelwn yr angen i bobl godi eu lleisiau ac i weithredu ar gyfer hawl yr iaith i fyw a hawl pobl i fyw drwy'r iaith.

Byddwn yn ymgyrchu ar faterion cenedlaethol fel rhan o'r Gymdeithas yr Iaith genedlaethol, a hefyd byddwn yn trefnu ein hymgyrchoedd ein hunain sydd yn neilltuol i Gaerdydd. Rydym wastad yn agored i syniadau newydd ac adborth.

Mae'r grŵp yn agored i unrhyw un sydd ag angerdd i ymgyrchu dros yr iaith Gymraeg a'i defnydd yma yn y brifddinas. Mae'r grŵp yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Rydym yn cyfarfod tua unwaith pob 6 wythnos, a hefyd yn cadw mewn cysylltiad yn y cyfamser. Gobeithio bydd rhai ohonoch naill ai am ymuno neu gefnogi tra ein bod yn ymgyrchu.

Pe bai hwn o ddiddordeb i chi, cysylltwch ni trwy ymgyrch@cymdeithas.cymru.

Diolch yn fawr a chofion cynnes!

# Pobol y Rhigwm

Mae'r beirniad yn sgrifennu hwn ddiwrnod ar ôl iddo gyfnewid heulwen wastadol ynys Cyprus am wynt a glaw Gwalia wen! Ysywaeth, ni chodwyd ei hwyliau wrth weld faint a gystadlodd y mis hwn. Dau limrig yn unig a ddaeth i law. Fodd bynnag, pelydryn o gysur drwy'r cymylau oedd bod y ddau yn limrig o sylwedd; maen nhw'n fydryddol gywir ac yn llifo'n rhwydd, ac un yn cynnwys yr odl fewnol chwenychedig honno! Yn anad dim, fe wnaethon nhw godi gwên – limrigau ysgafn o'r iawn ryw yw'r rhain, ac fel y mae selogion y golofn hon yn gwybod, dyna yw diben y mesur, ym marn y beirniad! Byddai'n anodd iawn dod o hyd i bapur sigaréts digon tenau i'w gwahanu, ond mae'n rhaid wrth fuddugwr, wrth gwrs! Dyma air am y naill gynnig a'r llall, cyn mynd ati i hollti blew mewn difri!

Yn ôl yr is-bwyllgor Henebion,
bydd cerflun o Trump wrth yr afon.
Tasai'r ffelwn yn suddo,
basai'r heddlu'n f'arestio,
ond gall Ffido ei wlychu'n gyfreithlon.

*Gwneud y tro*

Cynnig gwleidyddol-grafog a gafwyd gan *Gwneud y tro*. Mae'n ergydio'n wreiddiol ac yn glyfar, ond yn gwbl hygyrch ei sylwedd. Yn dechnegol, wedyn, mae'n llifo'n ddiymdrech, storïol, bron - peth digion anodd yw hynny, yn enwedig ar fesur ysgafn. Pwynt bonws am yr odl fewnol, wrth gwrs! Yr hyn a ysgogodd y chwerthiniad pennaf oedd y defnydd gwych o'r gair 'ffelwn'! Dyna sut y cyfeiriwyd at Mr Trump yn fynych yn ystod yr ymgyrch arlywyddol, wrth gwrs, ac mae'n sobor o gomig yn y cyd-destun hwn (a'r dewis penodol o 'ffelwn', yn hytrach na 'ffelon', sy hefyd yng Ngeiriadur Bruce). Ni waeth am wneud y tro, cyflawnodd y limrig hwn ei ddiben yn ardderchog.

Rwyf fodern, rwyf sgleiniog, rwyf eicon,
Ond byr yw fy hoedl gyfeillion.
Fy lle o hyn allan
Yw gerddi Sain Ffagan
Yn ôl yr Is-bwyllgor Henebion.

*Neuadd y Sir a'i cant*

Mae hwn, yn debyg iawn i gynnig *Gwneud y tro*, yn llwyddo i ddweud rhywbeth yn ffres ac yn ddiamwys ar yr un gwynt. Yn yr un modd â *Gwneud y tro*, mae'r limrig wedi'i weithio'n hynod ddarllenadwy, a'r fydryddiaeth yn llwyddiannus. Efallai mai anwyldeb ffraeth y limrig a gododd y wên lydanaf - mae *Neuadd y Sir a'i cant* yn honni bod yn 'fodern', yn 'sgleiniog' ac yn 'eicon', hyd yn oed! Dewis da iawn o ansoddeiriau! Fodd bynnag, mae realiti'n taro'n ddidostur yn nhair llinell olaf y limrig! Bosib iawn, wedyn, mai'r uchafbwynt yw'r modd i *Neuadd y Sir a'i cant* lwyddo i ddweud ei fod yn 'fyrhoedlog' mewn ffordd ddigon creadigol er mwyn llenwi'r naw sill ofynnol yn yr ail linell! At ei gilydd, dyma limrig ardderchog arall, sy wedi gwneud y defnydd gorau posib o'r mesur hwn.

Mae'n siŵr y synhwyrwch mai tasg bron yn amhosib y tro hwn yw pennu enillydd! Mewn ffordd mae'n gysur, mewn mis gwan iawn ei niferoedd, bod *Gwneud y tro* a *Neuadd y Sir a'i cant* fel ei gilydd wedi creu templedi solet o ran yr hyn y bydda i'n chwilio amdano mewn limrig. Mydryddiaeth gadarn, a *hiwmor*! Mae'n saff dweud y byddai'r ddau wedi cyrraedd y podiwm, boed gystadleuaeth gref neu wan. Does dim lle i'r ddau ar y gris uchaf, felly rhaid yw mynd wrth reddf, a'r reddf honno'n mynnu - er mai yn limrig *Gwneud y tro* y cafwyd yr odl fewnol - taw slicrwydd mynegiant, a hunan-anghymeradwyaeth *Neuadd y Sir a'i cant* sy'n cyrraedd y brig, o fewn llai na modfedd. Llongyfarchiade!

Dyma dderbyn y gall amrediad llanw'r golofn hon fod yn fawr. Weithiau, daw dwsin a mwy o gynigion i'r fei ac ar adegau eraill, fel y tro hwn, does dim angen bysedd un llaw i gyfri'r niferoedd. Yn y bôn, mae'n well gan feirniad safon dros nifer, felly doedd hi ddim yn ormod o siom o gael dau berl o limrig y tro hwn.

Hyderaf y bydd testun fymryn y wahanol ar gyfer mis Gorffennaf yn sbarduno casgliad teilwng o gynigion, cyn i ddarllenwyr y *Dinesydd* anelu am Wrecsam, a gwyliau'r haf.

**Cystadleuaeth mis Mehefin**

Cywydd neu delyneg, chwe llinell,
**Testun 'Hirddydd Haf'**

**Enillydd Mai**
**Margaret Griffiths, Pentyrch**

*Aron Pritchard*

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Mehefin at: eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

## Y DIGWYDDIADUR

## Gorffennaf

**Iau, 17 Gorffennaf**
'Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Cymru'. Arwel Vittle a Gwen Gruffudd yn trafod eu llyfr newydd gyda Karl Davies yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd, rhwng 6.30pm a 9.00pm. Noddwyd gan Mabon ap Gwynfor AS. Trefnwyd gan Gymdeithas Hanes Plaid Cymru. Bydd cyfle i brynu copi o'r llyfr wedi ei lofnodi ganddynt. Does dim tâl mynediad, ond bydd angen bwcio lle ymlaen llaw drwy Eventbrite: https://www.eventbrite.com/e/lansio-llyfr-dros-gymrun-gwlad-hanes-sefydlu-plaid-cymru-book-launch-tickets-1363982270689?aff=oddtdtcreator

**Llun, 21 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Paned a sgwrs yn Y Deri, Rhiwbina (CF14 6UH), am 11.00am. Cyfle i gael sgwrs a chymdeithasu. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Sul, 27 Gorffennaf**
Menter Caerdydd. Taith hanes ym Mhontypridd yng nghwmni Wil Morus Jones am 200pm. Manylion pellach gan Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, Manylion ar dud. 2**

# Bwytai Merch y Ddinas



## Bwyty Gorau Bro Morgannwg

**Lowri Haf Cooke**

Ar ddiwedd y golofn dd'wethaf addewais gychwyn ar helfa newydd, i daenu golau ar fwyty gorau Bro Morgannwg. Nawrte, coeliwch neu beidio, rydw i eisoes wedi hitio'r jacpot; a dwi'n amau'n gryf y caf i brofiad gwell yno eleni.

Lluniais restr fer o fwytyau'r fro sydd ben ac ysgwyddau yn uwch na'r cyffredin. Ymysg fy ffefrynnau; tafarn fwyd yr Hare and Hounds (Aberthin), bar/bwyty The Touring Club (Penarth) a bwyty pysgod a sglodion hynod chwaethus Mr Villa (y Barri). Yr unig broblem gyda'r rheiny; rydw i eisoes wedi sgrifennu amdanynt yn *Y Dinesydd*! Felly gwell gen i'w crybwyll i gychwyn rhag ofn nad ydych wedi eu profi. Yna, wrth gwrs, mae bwyty Home gan James Sommerin yn meddu ar seren Michelin. Ond a fyddech yn cytuno?



Nid pawb sydd yn gwirioni ar y fath fanylder - ac oferedd, o bosib - i ginio neu swper. A chaeodd nifer o fwytai'r Fro eu drysau ers y cyfnodau clo; yn eu pith, Arboreal y Bontfaen a Hangfire Barbecue, y Barri, a'r Humble Onion yn yr un man wedi hynny. Am gyfyng gyngor...

Felly am beth yn union ydw i'n chwilio amdano, ar gyfer teitl bwyty gorau Bro Morgannwg? Hawdd fyddai enwi Bar 44 Penarth fel y bar gwin/ tapas gorau - dyma gwmni a sefydlwyd ar stryd fawr y Bontfaen, ac sydd bellach wedi agor cangen ochr arall y Môr Hafren ym Mryste. Hefyd ym Mhenarth, mae Sid's Bar (Pickford's gynt) gyda'r gorau am frechdan granc ar lan y môr. Ac oes atyniad mwy poblogaidd na bwyty Mario's ar Ynys y Barri am bysgod a sglods a phaned o ffrothi coffi diolch i'r cysylltiad â Gavin a Stacey?

Dwi'n credu mod i'n chwilio'n benodol am brofiad bwyta 'cyflawn', o ran y croeso, gwasanaeth, blas y bwyd ac 'ysbryd' yr ardal. Mewn gwirionedd dwi'n chwilio am lysgennad o le, i blesio pawb, o bob oed a phob poced. Rhywle fyddai'n ysbrydoli ochenaid o ryddhad, a'r teimlad dihafal hwnnw, 'wrth gwrs mai hwn yw'r gorau', wrth groesi'r rhiniog! Dim pwyse felly!!

A dweud y gwir, roedd yr ateb yn amlwg, ond doeddwn i heb ymweld â'r bwyty dan sylw ers wyth mlynedd. A finne newydd ddechrau prosiect llên a bwyd yn Ysgol Llanhari, roedd y ffin â'r fro ychydig fetrau i ffwrdd, felly dyma fachu ar y cyfle a mynd amdani. Lwc pur oedd y ffaith mod i yno ym mis Mai, a'r haul yn gwenu ar ardal mor brydferth. Gallwn sawru'r coed ysgaw a garlleg gwyllt y cloddiau, a'r gwanwyn yn ei blodau. Oedais am ennyd yn Aberthin er mwyn manteisio ar ddiod ysgafn gwanwynaidd, ond gyda'r Hare and Hounds ar gau, es ymlaen ar fy nhaith, gan groesi 'mysedd...

O gyrraedd croesfan y Bontfaen, trois i'r chwith, i gyfeiriad y brifddinas, cyn troi i'r dde ger yr arwydd i Saint Hilari. Byddwch chi drigolion lleol yn gwybod yn iawn ble dwi ar fin eich cyfeirio; ie, tŷ tafarn y Bush, a sefydlwyd yn wreiddiol yn y6stod y Bymthegfed Ganrif. Wrth fyned i'r pentre', wynebais olygfa drawiadol; llu o weithwyr yn adfer tŷ to gwellt ger yr eglwys. Ac wrth nesu at y dafarn clywais fy hun yn ocheneidio - mewn rhyddhad, nid rhwystredigaeth! A hithe'n chwilboeth tu fas, braf oedd cael cysgod yn y bar, cyn canfod cadair esmwyth o flaen yr aelwyd. Un saig oedd ar fy meddwl, sef y pei anhygoel a sawrais yno yn 2017, toc ar ôl ymweld ag Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, pan noddodd y teulu Fedal y Dysgwyr er cof am Mam, oedd yn athrawes Gymraeg angerddol.

Roedd 'na bump pei gwahanol, neu bastai, ar y fwydlen (gan gynnwys detholiad i lysieuwyr a figaniaid). Ond tybed a fyddai'r pei cyw iâr, gamwn a chennin yn taro deuddeg, neu beth am y bastai cig eidion gyda Guinness a chaws Stilton? Yna denwyd fy chwilfrydedd gan un frawddeg ar y fwydlen; 'holwch ynglŷn â pei yr wythnos'. Dyna'n union a wnes, a phan glywais yr ateb - cwningen - bu'n rhaid mynd amdani, yn naturiol.

Afraid dweud gyfeillion, ges i brofiad fy mreuddwydion; platiad llawn llysiau, sglodion a grefi cyfoethog, yna phastai fach berffaith, llawn cig, madarch a bacwn yn chwincio arnai'n awgrymog. Dw'n i ddim faint ohonoch sy'n adnabod eich paestri, ond 'shortcrust' oedd y sylfaen - ac felly'n ddigon gwydn i gynnal y llifddorau - gyda chaead bach meddal o baestri pwff yn arnofio uwchben y 'cawl' cwningen gyfoethog. Ardderchog. Nid pei cyffredin o Greggs oedd hwn, nag un gan gwmni newydd Donald's, sydd wedi agor ar Heol y Cei, yn y ddinas, yn lled-ddiweddar (dau brofiad digon dymunol, gyda llaw, mewn argyfwng!). Na, roedd hwn wir yn brofiad eithriadol. Ges i lasied bach o win coch Malbec, a moctel bach amheuthun, blas afal ac ysgawen, yn adlais o'r coedlannau o'n cwmpas.

Roedd gen i ragdybiaeth mai cyrchfan berffaith ar gyfer yr hydref oedd y tafarn y Bush cyn ymweld fis d'wethaf. Neu efallai'n hafan llawn awyrgylch, a chyrchfan clyd a chynnes i godi'r galon dros fisoedd y gaeaf. Ond roedd fel chwa o awyr iach ar ddiwrnod braf ddechrau'r haf. Dyna benderfynu felly ei ddyfarnu'n enillydd. Da chi felly, ewch yno am ginio o safon, a sylwedd, ym mwyty gorau'r Fro.

**The Bush Inn, Saint Hilari, Y Bontfaen CF71 7DP; 01446 776888**

***Gwledd*, *Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke – ar werth yn eich siop lyfrau Cymraeg lleol.**

# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



1) Ydych chi'n cwblhau ffurflen dreth bob blwyddyn dim ond i ***hawlio rhyddhad treth yn ôl ar gyfraniadau pensiwn personol***? Os felly, efallai na fydd angen i chi lenwi ffurflen dreth hunanasesiad o nawr ymlaen. Mae'r Swyddfa Dreth wedi lansio ***gwasanaeth ar-lein newydd*** i unigolion hawlio treth yn ôl ar gyfraniadau pensiwn personol, gan ddisodli'r angen i gyflwyno ffurflen dreth flynyddol. Mae hyn ar gyfer pobl sy'n ennill incwm trwy gyflogaeth (trwy PAYE) yn unig.

2) Ydych chi'n ennill ***incwm o waith llawrydd tu allan i'ch prif swydd***? Ar hyn o bryd, os ydych yn ennill llai na £1,000 y flwyddyn o'r gwaith yma, does dim angen datgan yr incwm i'r Swyddfa Dreth mewn ffurflen dreth hunanasesiad.

   Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y byddant yn cynyddu'r trothwy yma o £1,000 i £3,000 yn ddiweddarach eleni.

   Fodd bynnag, mae hyn yn barod yn achosi dryswch, oherwydd mae'r cynnydd i £3,000 ond yn berthnasol **o ran yr angen i gyflwyno ffurflen dreth lawn**. Os ydych chi'n ennill rhwng £1,000 a £3,000 o unrhyw waith llawrydd, bydd ***dal angen i chi ddatgan yr incwm yma*** trwy ysgrifennu llythyr at y Swyddfa Dreth (yn hytrach na chwblhau ffurflen dreth lawn). Bydd y Swyddfa Dreth wedyn yn cysylltu gyda chi er mwyn trefnu i chi dalu'r dreth incwm sy'n ddyledus.

Cysylltwch os hoffech unrhyw gyngor ynglŷn â'r canllawiau newydd yma.

***Cwestiynau Huw ac Aled***

***C:*** Dwi'n gweithio i gyflogwr ac fel rhan o'n swydd, dwi'n gyrru'n rheolaidd ar draws y wlad. Mae fy nghyflogwr yn fy ad-dalu am gostau tanwydd ar gyfradd o 20c y filltir. Dwi o'r farn bod hyn yn gyfradd isel. Oes unrhyw beth y gallaf ei wneud?

***A:*** Mae'r Swyddfa Dreth yn caniatáu i gyflogwyr ad-dalu costau tanwydd eu gweithwyr ar gyfradd o hyd at 45c y filltir am y 10,000 milltir gwaith cyntaf, gyda 25c y filltir am unrhyw filltiroedd ychwanegol. Gallwch ***hawlio ad-daliad treth*** am y gwahaniaeth rhwng y costau tanwydd a ad-dalwyd gan eich cyflogwr (ar 20c y filltir) a'r hyn sy'n ddyledus yn seiliedig ar gyfraddau'r Swyddfa Dreth (ar 45c/25c y filltir) drwy baratoi ***ffurflen 'P87'***.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Swyddfa Dreth wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ceisiadau P87 gan weithwyr ac wedi cyflwyno amodau llymach ar gyfer cais llwyddiannus. Ar gyfer pob siwrnai gyda'ch gwaith, bydd angen rhestr fanwl arnoch o'r:

- codau post am y man cychwyn a'r man gorffenedig ar gyfer pob taith
- rheswm dros bob taith
- tystiolaeth o'r ad-daliadau a dderbyniwyd wrth eich cyflogwr (e.e. ffurflenni hawlio treuliau eich cyflogwr)

Yn anffodus, mae gan y Swyddfa Dreth restr hir o geisiadau i'w gwirio ac maent yn araf iawn ar hyn o bryd yn prosesu ad-daliadau treth, gydag oedi o tua 4 mis neu fwy yn eithaf cyffredin. Bydd angen amynedd!

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

---

## Elinor a'i Dwy Delyn

Dewch i glywed y delynores fyd-enwog Elinor Bennett yn perfformio ar ddwy delyn unigryw a hanesyddol. Bydd yn dod allan o'i hymddeoliad - a hithau bellach yn 82 - i roi datganiad arbennig yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd ar Nos Wener, Mehefin 20fed am 7.30.

Y mae'r delyn gyntaf yn Delyn Deires Gymreig o'r 18fed ganrif - ac yn hynod anodd chwarae arni ond yn swynol i ryfeddu. Yna ceir un o'r telynau cynharaf o Ffrainc y 19eg ganrif sy'n osgeiddig a soniarus. Clywn gerddoriaeth o'r cyfnodau priodol fydd yn agor clust i seiniau'r oes a fu. Noson i'w chofio!

Tocynnau yn £12 Wrth y Drws.....



# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

**Aled Biston sy'n cloriannu diwedd llwyddiannus iawn i'r tymor i Glwb Cymric**

Ar ddiwedd mis Mawrth roedd gan Glwb Cymric bum gêm yn weddill yn y gynghrair. Byddai ennill pob un ohonynt yn sicrhau dyrchafiad a'r clwb yn codi i'r bedwaredd haen am y tro cyntaf yn ei hanes. Dechreuodd Cymric gyda gornest yn erbyn Bettws yn Ocean Park Arena ar ddiwedd mis Mawrth. O fewn y 10 munud cyntaf roedd goliau gan Gruffudd Edwards ac Owain McKee wedi rhoi Cymric 2-0 ar y blaen. A llifodd y goliau wedyn - Nico Clwyd (2), Iwan Withers (1) a Rhys Jones (2) - a'r clwb ennill 7-0. Cardiff Cosmopolitan oedd yr ymwelwyr nesaf ac er iddynt fynd ar y blaen o fewn y chwe munud cyntaf, sgoriwyd saith gôl unwaith eto i sicrhau buddugoliaeth arall. Bettws oddi cartref oedd yr her nesaf. Sgoriodd Ifan Thomas o fewn 20 munud i roi Cymric ar y blaen, ond roedd hi'n dynn tan i Nico Clwyd sgorio wedi 75 munud i sicrhau'r fuddugoliaeth. Dwy gêm oedd yn weddill a'r cyntaf oddi cartref yn erbyn Dinas Powys. Wedi brwydr galed enillwyd o dair gôl i un. Roedd y gêm olaf yn erbyn Vale United a chafwyd buddugoliaeth gampus o 4-1. Ar hyd y blynyddoedd mae Cymric wedi methu â sicrhau dyrchafiad, ond achos dathlu y tro hwn a'r chwaraewyr yn edrych ymlaen yn fawr at dymor nesaf yn haen 4.



*Clwb Cymric*

**Clwb Pêl-Droed Taf Athletig**

Go brin y byddai stori Clwb Pêl-droed Taf Athletig yn gredadwy i Roy of the Rovers hyd yn oed. Mae'r garfan o siaradwyr Cymraeg ifanc ysgolion Glantaf a Phlasmawr wedi cwblhau'r dwbl - yn cipio Cwpan Ieuenctid De Cymru ychydig wythnosau ar ôl ennill y gynghrair ieuenctid. Clwb Pêl-droed Trefforest oedd



*Taf Athletic*

Wembley'r bechgyn ar ddiwedd Mai, ac fe reolodd Taf o'r cychwyn yn erbyn tîm Cascade. Sgoriodd Moc Ellis a'r capten Gregory Evans y naill ochr a'r llall i'r egwyl, ac er i'r gwrthwynebwyr daro 'nôl â gôl o gic rydd fe oroesodd Taf storm hwyr i godi'r tlws. Clwb unigryw a dyfodd o hedyn un o dimau'r Urdd yw Taf Athletig. Wedi uniad â Thŷ Celyn ddwy flynedd yn ôl, roedd pawb yn ymwybodol mai hwn oedd y tymor olaf cyn i'r bechgyn droi am y brifysgol, ceisio am swyddi, neu fentro i deithio'r byd. Mae'r dwbl yn ddiweddglo perffaith ar ddegawd cofiadwy - ac mae diolch y teuluoedd yn fawr i Dylan, Rob, Ian, Trystan a Siôn am eu holl waith caled. Efallai bod y tîm yn dod i ben ond bydd cyfeillgarwch y criw arbennig yn parhau - ac enw CPD Taf Athletig am byth ar Gwpan Ieuenctid De Cymru.

**John Parry-Jones sy'n adrodd ar ddiwedd campus i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd**

Nid yw'r daith i'r Tyllgoed byth yn un hawdd, ac er eu bod yng nghanol y tabl yn ddiogel rhag syrthio i'r bedwaredd adran, ro'n nhw hefyd yn amddiffyn record gartref ddiguro, ac felly â digon o gymhelliant. Ein bwriad oedd cadw'r pwysau ar Aberllechau ar frig y tabl gyda'r nod o gipio'r bencampwriaeth o'u dwylo.

Gyda'r Clwb yn cyrraedd yr egwyl â mantais o 12-9, roedd hi'n teimlo bod y fuddugoliaeth yn ein gafael. Ond cododd y tîm cartref eu gêm, gan reoli'r ail hanner gan ennill o 29-12, a ninnau'n colli o fwy na 4 pwynt am y tro cyntaf ers mis Mai 2023.

Roedd Tonyrefail yn brwydro am eu bywydau yn Adran 3 wrth iddynt gyrraedd Pontcanna yr wythnos ganlynol. Er iddynt gystadlu'n frwd, roedd y Clwb yn rhy gryf, a chroesodd y bechgyn am chwe chais a sicrhau buddugoliaeth arall.

Yr un oedd y stori yn erbyn Treharris ar Sadwrn ola'r tymor, gyda'r ymwelwyr yn brwydro'n galed, ond roeddem yn rhy gryf wrth groesi am wyth cais mewn buddugoliaeth o 54-2. Dyma'r nawfed tro eleni i ni sgorio mwy na 40 pwynt mewn gêm, mewn tymor sydd wedi ein gweld yn croesi am 93 cais.

Er na lwyddom i ennill yr Adran, bu'n dymor boddhaol iawn, yn enwedig wrth ystyried siom anferth y tymor diwethaf. Bydd y tîm cyntaf yn chwarae yn Adran 2 y flwyddyn nesa', gyda'r gwrthwynebwyr yn cynnwys Pentyrch, Rhiwbeina a Cardiff Harlequins - felly digon o gemau deniadol o'n blaenau.


Llwyddodd y Clwb hefyd i ennill rownd derfynol Cwpan Malcolm Thomas ar 6 Mai yn erbyn Clwb Rygbi St Illtud yn y Barri o 55-22.


Ar ran y pwyllgor cyfan, a'r chwaraewyr, gai ddiolch yn fawr iawn i'r rhai hynny sydd wedi dod i weld y Clwb yn chwarae eleni, a gobeithiwn yn fawr y byddwch yn dilyn y bois y tymor nesa yn Adran 2.

*Clwb Rygbi Cymry Caerdydd*



## Rhif: 253



**Ar Draws**
7. Ewch Llŷr  i'r golau (6)
8. Meistr Dai yn ddigalon yn enllibio (6)
10. Dwy afon yn uno'n arswydus (7)
11. Calon dinas gref (5)
12. 'Beth yw ----- y blodau fyrdd
    Wena yn y meysydd gwyrdd' (WNW) (4)
13. Llysieuyn y ffôl yn Lloegr (5)
17. Bwydo a dweud 'Amen' (5)
18. 'Mi Â 'mlaen, a doed a ddelo,
    Graig a -----, ar dy ôl' (WW) (4)
22. Lle i roi'r elw da (5)
23. Amgylchu y coffin mewn galar (7)
24. Daw rywsut mwy na saith i'r grŵp (6)
25. Y proffwyd bach olaf (6)

**I Lawr**
1. Llai o fôr i groesi a'ch cynnyrch (7)
2. Beth wnaeth hon yn Lloegr mewn llesgedd? (7)
3. Bradychu mewn ffordd llai ond dal mor wael (5)
4. 'Eist heibio i'm fel mellten goch,
    ----- ---- grasboeth ar dy foch' (IDH) (1'1, 5)
5. Angen llog is neu cawn ein difa yn y gwres (5)
6. Pwrpas bod heb gopa (5)
9. Cael mwy i'w roi i'r 22 (9)
14. 'Ond dail y ----- ----- llyfr
    Sy'n dod  â'r haf i mi'(JCH) (4,2'1)
15. Lle i newid cyfeiriad (7)
16. 'A haul ----- drwy'r prynhawn
    Yn bwrw'i aur i'th gwpan llawn' (IDH) (7)
19. '----- wedi hirnos, cân wedi loes,
    Nerth wedi llesgedd, coron 'r ôl croes' (cyf JDVL) (5)
20. Ethel fach mewn gwely plu yn trin ei gwallt (5)
21. Anifail fferm o bob golwg (5)

**Enillydd Croesair Rhif 251**
**Gaenor Jones, Pontypridd**

**Atebion Croesair Rhif 251**
**Ar Draws**
7. Haul bron mynd i   8. Pendefig   9. Dail
10. Gwindy   12. Anadlu   14. Irlanc   16. Dymuno
18. Derw   20. Ymlwybro   22 Ddwylo pur ar led
**I Lawr**
1. Baledwyr   2. Blodyn   3. Braf   4. Yn y gwaed
5. Hyfdra   6. Odli   11. Yn cwympo   13. Lan o'r bedd
15. Anwylo   17. Mwydro   19. Elwa   21. Lori

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf, 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2026

Pleser yw cael rhannu tri dyddiad pwysig gyda chi yn gysylltiedig ag Eisteddfod Caerdydd. Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn, gan obeithio y gallwch ymuno gyda ni am y digwyddiadau sydd ar y gweill gyda ni.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal nos Fawrth 24 Mehefin am 19:15 ym Mhafiliwn y Grange, Grangetown. Mae croeso i bawb. Os fyddwch yn dymuno sefyll am un o'r swyddi etholedig, dylech gysylltu gyda cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru i roi gwybod. Y swyddi hyn yw cadeirydd, is-gadeirydd, ysgrifennydd, a thrysorydd. Bydd hefyd croeso i chi ymuno fel aelod o'r pwyllgor mewn rôl anetholedig, neu i arsylwi'r cyfarfod.

**Digwyddiad codi arian**

Cadwch ddydd Sadwrn 12 Gorffennaf yn rhydd yn eich dyddiaduron. Ry'n ni'n trefnu digwyddiad codi arian ychydig yn wahanol i'r arfer eleni. Bydd manylion a chyfle i brynu tocynnau cyn hir. Cadwch lygad ar ein tudalen Facebook ac Instagram.

**Eisteddfod 2026**

Ry'n ni'n falch o gyhoeddi y bydd yr eisteddfod yn cael ei chynnal nos Wener 6 Chwefror. Lleoliad i'w gadarnhau. Unwaith eto cadwch lygad allan am fwy o fanylion, gan gynnwys rhestr testunau gwaith cartref a chystadlaethau llwyfan.

Braf oedd gweld cymaint o bobl yn mwynhau'r adloniant a'r heulwen yng Ngŵyl Fach y Fro ganol mis Mai.

**Edrych ymlaen at Tafwyl**




Wrth i benwythnos Tafwyl agosáu, cawn obeithio am dywydd braf yng Nghaerdydd ar 14-15 Mehefin. Cofiwch lawrlwytho'r *ap* o flaen llaw er mwyn cynllunio eich penwythnos. Mae amseroedd y sesiynau amrywiol a pherfformiadau'r bandiau hefyd i'w gweld ar wefan yr ŵyl: https://tafwyl.org

Diffiniad, Candelas, Morgan Elwy ac Aleighcia Scott, Tara Bandito ac Al Lewis fydd ymhlith y prif artistiaid ddydd Sadwrn gyda Ffleur de Lys, Bwncath, Buddug, Gwibdaith Hen Frân a Mared ymysg y rhai fydd yn camu i'r brif lwyfan ddydd Sul.

Bydd llu o ddigwyddiadau Ffrinj yn ystod yr wythnos sy'n arwain at yr ŵyl gan gynnwys Dragwyl; sesiwn goginio i blant; picnic i'r teulu a gig ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach. Noder bod tocynnau ar gyfer noson 'retro' Tafwener bellach wedi gwerthu allan.

**Taith Tafwyl (Prynhawn Sul, 8 Mehefin)**

Bydd y daith hamddenol hon, yng nghwmni'r hanesydd a'r awdur lleol Melfyn Hopkins, yn dechrau ger eglwys hynafol St Isan ynghanol Llanisien. Awn am dro am ryw awr a hanner i ddysgu am hanes amaethyddol a diwydiannol y plwyf. Wrth gerdded, cawn weld lleoliad yr hen garchar a chlywed nifer o straeon hynod am yr ardal. Pris: Am ddim ond rhaid cofrestru o flaen llaw.

**Picnic Tafwyl (Bore Llun, 9 Mehefin, 11.30)**

Cynhelir picnic i blant bach a'u teuluoedd ym Mharc Fictoria, fore Llun, 9 Mehefin am 11.30 gydag adloniant gan Do Re Mi. Dewch i fwynhau ychydig o ganu a dawnsio gyda'ch ffrindiau! Pris: Am ddim.

**Mewn Tiwn (Bore Llun, 9 Mehefin, 11.30)**

Edrychwn ymlaen at groesawu'r chwiorydd Enlli a Lleucu Parry yn ôl i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina ar gyfer cyngerdd anffurfiol ar fore Llun, 9 Mehefin fel rhan o ddathliadau Tafwyl. Bydd 'Dwy' yn ein diddanu gydag awr o gerddoriaeth ar y ffliwt a bydd cyfle am baned a sgwrs o flaen llaw. Llwyfannir y gyngerdd gyda chymorth gan Grant Loteri Tŷ Cerdd ond gwahoddir cyfraniadau ar y diwrnod. Does dim angen cofrestru ond gellir defnyddio'r ffurflen ar-lein i gyfrannu rhodd.

**Gig Ieuenctid (Nos Fercher, 11 Mehefin, 7.30)**

Wedi llwyddiant bandiau megis Dadleoli, Taran ac Anhunedd dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynllun 'Yn Cyflwyno' Tafwyl yn mynd o nerth i nerth. Bydd bandiau 2025 yn camu i'r llwyfan am y tro cyntaf nos Fercher, 11 Mehefin i ddiddanu'r dorf yng Nghlwb Ifor Bach. Mae tocynnau i'r gig ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan Menter Caerdydd.

**Dragwyl (Nos Iau, 12 Mehefin, drysau yn agor am 7.00)**

Wedi i sioe y llynedd werthu allan yn llwyr, mae Connie Orff a'i ffrindiau lliwgar yn dychwelyd i Ganolfan Mileniwm Cymru yn eu holl ogoniant ar nos Iau, 12 Mehefin fel rhan o Ffrinj Tafwyl. Mewn digwyddiad unigryw, bydd Cwîns a Chings Cymru yn dod at ei gilydd unwaith eto i ddod â deunydd newydd sbon i lwyfan Cabaret am un noson yn unig! I fachu eich tocyn, ewch i wefan Canolfan Mileniwm Cymru. Pris: £20

**Sgwrs y Mis (nos Lun, 23 Mehefin)**

Newid hinsawdd yw'r her fwyaf sy'n wynebu Cymru a'r byd - ond oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i newid y sefyllfa? Sut gallwn leihau ein heffaith ar yr amgylchedd? Ydy diffodd y golau, ailgylchu poteli neu ddal y bws wir yn mynd i wneud gwahaniaeth neu ai cyfrifoldeb y Llywodraeth a chwmnïau mawr yw gofalu am ddyfodol ein planed? Pris: £5 y sesiwn neu £20 am weddill 2025.

**Gardd Berlysiau'r Bont-faen (Nos Iau, 26 Mehefin)**

Dewch i ddysgu mwy am yr ardd a'i hanes yng nghwmni un o'r gwirfoddolwyr ar nos Iau, 26 Mehefin. Cawn gyfle i fwynhau llonyddwch a harddwch y lle ar ôl i'r drysau gau i'r cyhoedd. Awydd mynd ond methu cyrraedd y Bont-faen? Cysylltwch! Efallai bydd modd rhannu lifft. Pris: £3.50 er mwyn cynnig rhodd tuag at waith cynnal a chadw'r ardd.

**Sesiwn Ymlacio Sain (nos Lun, 30 Mehefin)**

Cyfle arbennig i fwynhau sesiwn o ymlacio llwyr, dan ofal Geraint Thomas o G Natur a Lles gan ddefnyddio offer sain. Mae rhai wedi adrodd bod sesiwn sain yn helpu i leihau pryder a straen ac yn gwella ansawdd cwsg. Dewch i weld dros eich hun! Cynhelir y sesiwn am 6.30yh yn festri Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Pris: £25

**Sesiynau Sgiliau Digidol (Bob dydd Mawrth)**

Ydy eich gliniadur yn peri penbleth i chi neu ydych chi'n poeni am ddiogelwch ar-lein? Cofiwch am ein sesiynau galw heibio yn Ystafell TGCh Hyb y Llyfrgell Ganolog ar gyfer y rhai sydd am wella eu sgiliau digidol. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim ac mae croeso i chi alw mewn unrhyw bryd rhwng 10.00yb a hanner dydd.

**Cadwch y Dyddiad:**

Noson i Ddysgwyr – Rownd Caerdydd y Cwis Mawr a Phitsa – nos Iau, 17 Gorffennaf, Snails Deli, 6.00yh

---

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru

Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg

Instagram: @mentercaerdydd / @menterbromorgannwg

E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888


Menter Caerdydd yn cyflwyno...
TAFWYL
MEHEFIN 14 + 15 2025
PARC BUTE
DIFFINIAD • PYS MELYN • FLEUR DE LYS • MR
AL LEWIS • ALIS GLYN • BRONWEN LEWIS • BRYN BACH
BUDDUG • BWNCATH • CANDELAS • CRYS • DADLEOLI
DAGRAU TÂN • DEWIN • DOM, LLOYD A DON
GWIBDAITH HEN FRÂN • LLEUCU NON • LLEUWEN
LOS BLANCOS • MARI MATHIAS • MARED • MELLT
MORGAN ELWY AC ALEIGHCIA SCOTT • MYNADD • POPETH
PLOUZ A FOEN • STEVE EAVES A RHAI POBL• TARA BANDITO
TARAN • TONNAU • Y GERDDORFA UKULELE • YNYS
TAFWYL
menter caerdydd
Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro
S4C
BBC RADIO CYMRU
CARDIFF CAERDYDD
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government